



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024

Rhagfyr 2024

[llyw.cymru](https://llyw.cymru)

# Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024

---

## Rhagair

---

Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru lunio Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru. Mae'n dilyn ac yn disodli Adroddiadau'r Prif Economegydd, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2017 ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Dros y blynyddoedd, mae adroddiadau'r Prif Economegydd wedi esblygu i ddarparu'r cyd-destun economaidd ac ariannol ar gyfer y gyllideb, gan grynhoi'r materion perthnasol sy'n wynebu economïau'r DU a Chymru. Mae'r adroddiadau hyn wedi cwmpasu cyfnod cythryblus i economi'r DU a Chymru, gan gynnwys y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, pandemig y coronafeirws ac, yn fwyaf diweddar, yr argyfwng 'costau byw'.

Gan fod yr adroddiad wedi ehangu a darparu gwybodaeth fanylach, mae bellach yn cael ei ddrafftio gan amryw o ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru, gan ddibynnu ar eu dealltwriaeth a'u dadansoddiad. O ganlyniad, mae bellach yn briodol ailenwi'r adroddiad o ystyried y cyfraniadau arbenigol ehangach sydd bellach yn rhan annatod o'r adroddiad hwn. Nod yr adroddiad hwn yw cynnig cipolwg ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar dirwedd economaidd Cymru ac yn ei siapio. Mae hyn yn cynnwys trosolwg o dueddiadau a ffigurau sy'n ymwneud ag allbwn economaidd, cynhyrchiant, safonau byw aelwydydd (gan gynnwys asesu effeithiau chwyddiant), y farchnad lafur, swyddi gwyrdd a masnach.

Gobeithio y bydd yr adroddiad yn parhau i fod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi. Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar gynnwys neu fformat yr adroddiad.

**Dr Thomas Nicholls**

*Prif Economegydd*

*Llywodraeth Cymru*

## Crynodeb Gweithredol

---

- Mae economi Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU. Mae llawer o'r tueddiadau cyffredinol sy'n effeithio ar y DU yn debygol o gael eu hadlewyrchu yn amodau economaidd Cymru neu o ddylanwadu'n drwm arnynt.
- Mae allbwn economaidd y DU eleni wedi perfformio'n well na'r disgwyl o'i gymharu â thua blwyddyn yn ôl. Fodd bynnag, mae'r twf economaidd yn dal i fod yn llai o'i gymharu â safonau hanesyddol. Mae'r rhagolygon ar gyfer twf hefyd yn dal i fod ar gyfradd is. Mae twf yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan y cynnydd yn yr oriau a weithir, yn hytrach na chynnydd mewn cynhyrchiant.
- Mae twf economaidd Cymru y pen hyd at 2022 wedi bod yn debyg i wledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr ond mae'n dal yn is na chyfartaledd y DU, ac yn debyg i ogledd-ddwyrain Lloegr.
- Mae twf economaidd cymharol isel y DU dros y blynyddoedd diwethaf yn rhannol oherwydd bod twf cynhyrchiant yn arafach nag yr oedd yn y cyfnod cyn yr argyfwng ariannol byd-eang. Effeithiwyd ar Gymru yn yr un modd, gyda lefelau cynhyrchiant is yn cyfrannu at ei hallbwn economaidd is y pen. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwella cydgrynoadau, gwella sgiliau'r gweithlu, a chynnyddu buddsoddiad yn debygol o wella cynhyrchiant yng Nghymru a'r DU.
- Roedd cynhyrchiant sector cyhoeddus y DU yn tyfu'n araf cyn pandemig y coronafeirws ond gostyngodd yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw ac nid yw wedi adfer eto. Er gwaethaf y cynnydd yn y mewnbynnau mewn rhai gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig iechyd, nid yw'r allbynnau wedi cynyddu'n gymesur â nhw. Mae'n debygol fod y sefyllfa hon hefyd yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae safonau byw yn y DU, a fesurwyd yn ôl incwm aelwydydd, wedi cyd-fynd yn fras ag allbwn economaidd ond maent wedi tyfu'n arafach yn ystod y blynyddoedd diwethaf o'u cymharu â thueddiadau tymor hir. Mae Cymru wedi cynnal ei ffyniant cymharol o'i chymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau a gwledydd y DU. Amcangyfrifir bod incwm aelwydydd yng Nghymru tua 5% yn is na chyfartaledd y DU wrth ddefnyddio'r costau tai ôl-osod canolrifol ar gyfer 2020-21 i 2022-23.
- Mae chwyddiant wedi parhau i ostwng yn ystod 2024 ac mae bellach yn nes at darged Banc Lloegr o 2% y flwyddyn. Er y rhagwelir y bydd chwyddiant yn is nag yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, disgwylir iddo aros ychydig yn uwch na'r targed ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Er bod cyfraddau chwyddiant wedi gostwng, mae prisiau wedi codi'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf, gyda

phrisiau ynni a bwyd yn dal i fod tua 40% a 30% yn uwch na thair blynedd yn ôl.

- Mae dehongli ffynonellau'r farchnad lafur yn heriol oherwydd bod gostyngiad yn y cyfraddau ymateb i'r arolwg, gan effeithio'n benodol ar yr Arolwg o'r Llafurlu. Fodd bynnag, mae cyfradd cyflogaeth Cymru'n gymharol uchel o hyd o'i chymharu â'r 20 mlynedd diwethaf.
- Mae'n debygol fod marchnad lafur y DU wedi colli rhywfaint o fomentwm yn 2024. Mae diweithdra'n dal yn isel yn ôl safonau hanesyddol a rhagwelir y bydd yn aros ar tua 4% neu ychydig yn uwch, ac mae hyn hefyd yn debygol o fod yn berthnasol i Gymru.
- Gostyngodd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn raddol drwy'r 2010au ond mae'n debygol fod y gostyngiad wedi dod i ben ers y pandemig, gyda chyfraddau cynyddol o anweithgarwch economaidd tymor hir sy'n gysylltiedig â salwch.
- Yn 2022, roedd tua 11,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn yr Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru, ychydig o dan 1% o gyfanswm cyflogaeth Cymru, a chyfran debyg i'r DU. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn weddol gyson ers 2015. Mae gan Gymru gyflogaeth â dwysedd cymharol uwch o garbon na chyfartaledd y DU, yr ail uchaf ymhlith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.
- Mae masnach yn hanfodol i economi Cymru ac mae allforion nwyddau Cymru'n cyfateb i tua chwarter allbwn economaidd Cymru, cyfran gymharol uwch na'r Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod allforion nwyddau Cymru'n dilyn patrymau'r DU ar y cyfan, mae data 2023 yn dangos gostyngiad mewn gwerth cyffredinol masnach, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn allforion petrolewm.
- Mae datblygiadau allweddol yn nata economaidd Cymru yn y dyfodol yn cynnwys gwella ystadegau'r farchnad lafur drwy Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thablau Mewnbyn-Allbwn Llywodraeth Cymru, a fydd yn dangos y perthnasau prynu a gwerthu yn economi Cymru.
- Cynyddodd Cyllideb Hydref 2024 Llywodraeth y DU drethi a benthyca i alluogi cynnydd mewn gwariant ar adnoddau ('o ddydd i ddydd') a chyllidebau cyfalaf o'i gymharu â'r disgwyliadau'n gynharach yn y flwyddyn. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn setliad ariannol Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn nesaf, o'i gymharu â'r flwyddyn hon a'r disgwyliad yn gynharach eleni.
- Er gwaethaf y cynnydd yng ngwariant y llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus eleni a'r flwyddyn nesaf, mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus y tu hwnt i hynny'n ymddangos yn heriol. O ran cynlluniau

gwariant presennol Llywodraeth y DU, disgwylir y bydd y cynnydd mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn llawer is yn y tymor canolig.

- Mae cynnydd o 5% mewn termau real yng nghyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 o'i gymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24 ar sail tebyg am debyg. Mae amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn awgrymu y bydd cynnydd bychan.
- Mae cyllideb gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru 7% yn uwch mewn termau real yn 2025-26 o'i gymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24. Mae amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn awgrymu rhagolygon mwy heriol ar gyfer cyllidebau cyfalaf, a bydd rhai gostyngiadau'n bosibl yn 2029-30 wrth i ni gyrraedd terfynau benthyca.
- Mae Llywodraeth Cymru'n wynebu heriau cyllidol difrifol, gyda mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus a lefelau uwch o anghenion o'i gymharu â Lloegr. Fodd bynnag, nid oes dim yn yr amcanestyniadau poblogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i awgrymu y bydd y twf yn y galw am wasanaethau'n wahanol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.

## Cyflwyniad


Dyma'r rhifyn cyntaf o Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru. Mae hyn yn barhad i'r gyfres o adroddiadau'r Prif Economegydd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â phob Cyllideb ddrafft ers 2017. Mae'r adroddiad yn ddatblygiad ar yr adroddiadau hynny, ac yn darparu'r cyd-destun economaidd ac ariannol ar gyfer yr economi yng Nghymru a'r DU.

Er ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar Gymru, mae rhywfaint o'r cynnwys yn ymwneud â'r DU gyfan er mwyn gosod cyd-destun ehangach ac adlewyrchu argaeledd data penodol. Yn gyffredinol, mae tueddiadau data'r DU yn berthnasol i Gymru oherwydd ei integreiddiad dwfn ag economi'r DU. Er enghraifft, mae'r data diweddaraf am fasnach rhwng un busnes a'r llall (2022) yn dangos bod 47% o werthiannau busnesau yng Nghymru i fusnesau eraill yng Nghymru, tra bod 33% i weddill y DU. Mae gwerth eitemau a brynir o weddill y DU (42%) yn fwy na gwerth rhai gan fusnesau yng Nghymru (24%). Mae'r eitemau a werthir ac a brynir rhwng busnesau yng Nghymru a'r DU yn sylweddol fwy na thrafodiadau rhyngwladol.

### Ffigur 1: Cyrchfan eitemau a werthir i fusnesau yng Nghymru ac a brynir gan fusnesau yng Nghymru, 2022


#### Gwerth eitemau a werthir

Amcangyfrifwyd mai **£144.9bn** oedd cyfanswm gwerth y gwerthiannau gan fusnesau yng Nghymru.



#### Gwerth eitemau a brynir

Amcangyfrifwyd mai **£60.6bn** oedd cyfanswm gwerth y pryniannau gan fusnesau yng Nghymru.



**Sylwch:** Nid yw hyn yn cynnwys pob eitem a werthir gan fusnesau yng Nghymru gan y bydd rhai'n cael eu gwerthu i ddefnyddwyr. Nid yw'r arolwg chwaith yn cynnwys rhai sectorau penodol.

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru (2024) *Arolwg Masnach Cymru: 2022*

Yr holl ddata a ddefnyddiwyd yn y ddogfen hon oedd y data diweddaraf a oedd ar gael ar 15 Tachwedd 2024.

## Cynnyrch Economaidd

---

Mae perfformiad economi'r DU eleni, yr amcangyfrifir ar hyn o bryd ei bod gwerth £2.7 triliwn ar gyfer 2023, a fesurir yn ôl cynnyrch Domestig Gros (GDP), wedi bod yn well na'r hyn a ddisgwyliwyd ar adeg Cyllideb ddrafft y llynedd, er mai dim ond ryw fymryn yn well ydyw. Bu rhyw fymryn o ostyngiad ym mhrif gynnyrch domestig gros y DU yn ystod dau chwarter olaf 2023, gan olygu bod yr economi mewn dirwasgiad yn dechnegol. Bu adferiad yn yr economi yn ystod hanner cyntaf 2024, gan gynyddu 0.7% yn y chwarter cyntaf ac yna 0.5% yn yr ail chwarter. Fodd bynnag, arafodd twf cynnyrch domestig gros yn ail hanner 2024 gyda chynnydd o 0.1% yn nhrydydd chwarter 2024 (Gorffennaf i Fedi).

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi atal cyhoeddi data cynnyrch domestig gros chwarterol ar gyfer Cymru oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data.<sup>1</sup> Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae economïau Cymru a'r DU yn hynod integredig, felly mae'r dadansoddiad canlynol o allbwn sy'n defnyddio data'r DU yn berthnasol iawn i berfformiad yr economi yng Nghymru.


Gan gymryd safbwynt mwy tymor canolig (gweler **Ffigur 2**), cynyddodd lefel allbwn y DU 3.0% rhwng pedwerydd chwarter 2019 a thrydedd chwarter 2024, sy'n trosi i fod yn gynnydd chwarterol cyfartalog o 0.3%. Mae hyn gryn dipyn yn is na'r twf chwarterol cyfartalog tymor hir o 0.6% (o 1980 i 2007) cyn yr argyfwng ariannol. Mae hefyd yr un fath a'r twf chwarterol cyfartalog o 0.3% a gofnodwyd rhwng 2008 a 2019, sef y perfformiad economaidd gwaethaf yn hanes economaidd y DU ers yr ail ryfel byd.

Nid yw newidiadau yn y prif gynnyrch domestig gros yn ystyried newidiadau yn y boblogaeth, sy'n golygu ei fod yn fesur cyfyngedig o gynnydd economaidd. Mewn cyferbyniad, mae cynnyrch domestig gros y pen yn ystyried newid yn y boblogaeth. Roedd lefel cynnyrch domestig gros y pen y DU yn nhrydydd chwarter 2024 0.7% yn is na phedwaredd chwarter 2019 (gweler **Ffigur 2**), a'r prif esboniad dros hyn yw fod twf poblogaeth yn gryfach na'r twf economaidd yn ystod y cyfnod hwn. Rhwng 1980 a 2007 bu cynnydd cyfartalog o 0.5% y chwarter mewn cynnyrch domestig gros y pen. Fodd bynnag, dim ond 0.1% oedd y gyfradd dwf chwarterol gyfartalog a gofnodwyd rhwng 2008 a 2019, gan danlinellu fod perfformiad economaidd y DU ar ei waethaf ers y 1940au yn degawd neu ddau cyn y pandemig.

---

<sup>1</sup> Roedd data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol gyda GDP chwarterol Cymru ym mis Mai 2023 ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2022; ONS (2023) [GDP, rhanbarthau a gwledydd y DU](#)

**Ffigur 2: Mynegai cynnyrch domestig gros cyfanredol a chynnyrch domestig gros y pen y DU (chwarter 4, 2019 = 100)**




**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** SYG

Darparodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ragolygon economaidd diweddaraf y DU ochr yn ochr â Chyllideb Hydref 2024. Mae'r OBR yn rhagweld y bydd cynnyrch domestig gros cyfanredol a chynnyrch domestig gros y pen y DU yn cynyddu ar gyfraddau cyfartalog o 1.6% a 1.0% yn y drefn honno dros y pum mlynedd nesaf. O ran cynnyrch domestig gros y pen yn 2024 a 2025, mae hwn yn welliant bach o'i gymharu â rhagolwg blaenorol yr OBR a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024 a mis Tachwedd 2023, adeg Cyllideb ddrafft ddiwethaf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae cynnyrch domestig gros y pen yn is yn y blynyddoedd diweddarach o'i gymharu â rhagolygon blaenorol ac yn is o lawer na'r duedd hirdymor, sef tua 2.3% cyn yr argyfwng ariannol.




**Ffigur 3: Rhagolygon GDP y pen, 2024 i 2029**



**Ffynhonnell:** OBR

Cynnydd mewn cyflogaeth (oriau a weithir) a chynhyrchiant llafur sy'n sbarduno twf mewn cynnyrch domestig gros. Mae cynhyrchiant, a drafodir yn yr adran nesaf, yn hanfodol er mwyn cael gwelliannau parhaus mewn safonau byw. Ers 2008, y newid mewn cyflogaeth sydd wedi arwain y newidiadau mewn cynnyrch domestig gros, a bach iawn yw'r cyfraniadau o enillion cynhyrchiant. Mae rhagolygon diweddaraf yr OBR yn dangos symudiad tuag at dwf sy'n cael ei sbarduno gan gynhyrchiant yn y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae twf mewn allbwn economaidd a chynhyrchiant llafur yn dal yn is na'r cyfraddau cyn yr argyfwng ariannol.

**Ffigur 4: Elfennau twf cynnyrch domestig gros, rhwng 1970 a 2029 (rhagolwg)**



Ffynhonnell: SYG, OBR

### Llesiant a boddhad â bywyd

Mae cynnyrch domestig gros yn fesur pwysig o gynnydd economaidd ond fel y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi, nid yw'n fesur cyflawn o lesiant oherwydd *'it omits the gains or damage caused by GDP growth on society and the environment, how that growth is shared among society'* ac mae'n anwybyddu gweithgarwch sydd y tu allan i'r ffin cynhyrchu ond sy'n cyfrannu at lesiant, yn enwedig cynhyrchiant yr aelwyd.<sup>2</sup>


Er mwyn darparu *"a more holistic view of quality of life in the UK"*, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei bwletin diweddaraf ar lesiant yn y DU ym mis Tachwedd 2024, wedi'i rannu yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Mae llesiant yn cael ei asesu ar draws sawl dimensiwn, gan gynnwys boddhad â bywyd. I fesur boddhad â bywyd, gofynnwyd i bobl *"Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd y dyddiau hyn? Gyda 0 yn golygu "dim o gwbl" a 10 yn "yn gyfangwbl"*. Yn Chwarter 2 2024, y sgôr cyfartalog ar gyfer boddhad â bywyd ymysg oedolion yng Nghymru oedd 7.5, sydd wedi codi ryw fymryn o'i gymharu â Chwarter 1 2024 (7.4) a'r un fath â Chwarter 4 2023. Yn Chwarter 2 2024, roedd y sgôr cymedrig ar gyfer boddhad â bywyd yng Nghymru yr un fath ag yn Lloegr (7.5) a'r Alban (7.5) ond ychydig yn is na Gogledd Iwerddon (7.7). Tua 7.5 oedd y sgôr hefyd ym mhob rhanbarth yn Lloegr, gan amrywio o 7.3 (Dwyrain Lloegr) i 7.6 (De-ddwyrain Lloegr). Mae ffigur y DU wedi bod yn tua 7.5 yn gyffredinol ers 2011, gan ostwng ychydig i 7.3 yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) (chwarter olaf 2020 a chwarter

<sup>2</sup> Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Measuring progress, well-being and beyond GDP in the UK](#)

cyntaf 2021). Er nad yw data wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer Cymru er mor hir yn ôl â 2011, mae'n debygol iawn ei fod wedi symud o gwmpas neu'n debyg i lefel y DU dros y cyfnod hwnnw.

Fel gyda phob mesur cyfartalog, mae'n bwysig ystyried y dosbarthiad, yn enwedig monitro'r rheini sy'n nodi fod eu lefelau llesiant yn isel. Yn ystod ail chwarter 2024, dywedodd 5.4% o oedolion 16 oed a hŷn yn y DU bod eu boddhad â bywyd yn isel. Mae **Ffigur 5** yn dangos bod hyn wedi bod yn cynyddu'n raddol o tua 4.5% yn 2021. Fodd bynnag, mae'n dal yn is ar hyn o bryd nag yr oedd yn ystod COVID-19 pan gododd i 6.4% chwarter 1 2021).<sup>3</sup>

**Ffigur 5: Cyfran o oedolion y DU sy'n dweud bod eu boddhad â bywyd yn 'isel', Ch1 2019 i Ch2 2024**



*Ffynhonnell: SYG*

Yn ogystal â'r mesurau llesiant personol a boddhad â bywyd (goddrychol), gellir defnyddio dull dangosydd i asesu llesiant ar draws sawl dimensiwn neu nod. Defnyddir dull o'r fath ar gyfer [adroddiad Llesiant Cymru](#).

## Cynnyrch economaidd Cymru


Yn 2022, sef y flwyddyn ddiweddaraf o ddata sydd ar gael, roedd cynnyrch domestig gros y pen yng Nghymru yn £27,274, sy'n cyfateb i 74.0% o gyfartaledd y DU. O blith y 12 o Wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, dim ond Gogledd Ddwyrain Lloegr oedd â chynnyrch domestig gros is y pen na Chymru. Fel y mae **Ffigur 6** yn dangos, mae cynnyrch domestig gros Cymru y pen o'i gymharu â'r DU wedi bod yn gyson is na nifer o rannau eraill o'r DU dros y chwarter canrif diwethaf, ond mae wedi bod yn gyson agos iawn at berfformiad Gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae tebygrwydd rhwng

<sup>3</sup> Nid yw canran yr oedolion yng Nghymru sy'n dweud fod eu boddhad â bywyd yn "isel" yn cael ei defnyddio yma gan fod cyfyngau hyder mawr iawn yn y data.

llawer o nodweddion economaidd-gymdeithasol Cymru a rhai Gogledd Ddwyrain Lloegr.

Fel y mae **Ffigur 6** yn dangos, mae cynnyrch uchel y pen Llundain yn gwneud i'r rhanbarth sefyll allan o'i gymharu â holl ranbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU. Pe baech yn hepgor Llundain, byddai cynnyrch domestig gros y pen yng Nghymru a ffigurau pob rhanbarth arall yn llawer agosach at gyfartaledd y DU.

**Ffigur 6: Cynnyrch domestig gros y pen rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU (y DU = 100), 1998 i 2022**



Ffynhonnell: SYG

Yn 2022, bu cynnydd o 2.9% yng nghynnyrch domestig gros y pen Cymru (cynnydd o 3.2% yn y DU heb gynnwys extra-regio), wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond, bu gostyngiad o 3.8% (cynnydd o 0.1% yn y DU heb gynnwys extra-regio) o'i gymharu â 2019 - y diffyg mwyaf o blith rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU o'i gymharu â'r cyfnod cyn y coronafeirws (COVID-19). Mae dadansoddiad data'n awgrymu y gallai hyn fod oherwydd bod y pandemig wedi cael effaith fwy niweidiol ar y sector cynhyrchu (sy'n gyfran gymharol fwy o economi Cymru), gyda'r adferiad yn cael ei yrru'n bennaf gan y sector gwasanaethau ledled y DU.<sup>4</sup> Efallai fod Brexit hefyd wedi cael effaith wahaniaethol, mwy negyddol efallai, yng Nghymru. Disgwylir iddo leihau masnach a chynhyrchiant, gan gael effaith negyddol ar yr economi. Fodd bynnag, mae'n her i fesur yr effeithiau hynny, gan ei bod yn anodd gwahanu effaith Brexit oddi wrth yr ystod o siociau y mae economïau'r DU a Chymru wedi'u wynebu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r OBR yn dal i ddisgwyl na fydd effaith llawn Brexit yn cael ei gwireddu am sawl blwyddyn ar ôl i'r berthynas fasnachu newydd â'r UE gael ei rhoi ar waith yn llawn. Mae'n amcangyfrif

<sup>4</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024): [Regional gross value added \(balanced\) by industry: all ITL regions](#)

y bydd Brexit yn lleihau maint economi'r DU tua 4%, gyda'r effeithiau llawn yn dod i'r amlwg 15 mlynedd ar ôl dechrau'r cytundeb masnach newydd yn 2021.<sup>5</sup>

---

<sup>5</sup> Gweler OBR mis Mawrth 2024 [Economic and fiscal outlook – March 2024](#)

## Cynhyrchiant

---

### Pam fod cynhyrchiant yn bwysig?

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae twf economaidd y DU (a Chymru) ers argyfwng ariannol byd-eang (GFC) 2007-08 wedi bod ar gyfradd is o'i gymharu â'r deugain a mwy o flynyddoedd blaenorol. Ers yr argyfwng ariannol byd-eang, mae twf cynhyrchiant wedi arafu i bob pwrpas am resymau a drafodwyd ymysg llunwyr polisi, ac mae'r ffenomenon yn cael ei alw'n "bos cynhyrchiant."


### Beth yw cynhyrchiant?

Mesur o effeithlonrwydd mewnbynnau wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau yw cynhyrchiant. Mae fel arfer yn cael ei fesur yn ôl maint yr allbwn sy'n cael ei gynhyrchu fesul uned o fewnbwn llafur. Yn ei hanfod, mae'n asesu pa mor effeithiol y defnyddir llafur i gynhyrchu gwerth economaidd. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw bod llafur yn fewnbwn cynhyrchu hawdd ei fesur.

Gellir defnyddio sawl dull i fesur cynhyrchiant. Un mesur yw Cynhyrchiant Aml-ffactor (MFP), sy'n gwerthuso allbwn o'i gymharu â mewnbynnau llawn o ran llafur a chyfalaf, gan roi darlun ehangach o gynhyrchiant ar draws yr holl ffactorau cynhyrchu. Metrig arall, sy'n cael ei ddefnyddio'n amlach, yw Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fesul awr o waith neu weithiwr. Mae'r olaf yn canolbwyntio ar werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir fesul awr o lafur, gan ei wneud yn ddull defnyddiol o werthuso effaith uniongyrchol llafur ar allbwn economaidd.

Mae **Ffigur 7** yn dangos y gwahaniaeth mewn twf cynhyrchiant ers yr argyfwng ariannol byd-eang ac ar draws sawl gwahanol gyfnod yn y canol. Yn y naw mlynedd cyn yr argyfwng ariannol byd-eang (1998 i 2007) roedd y gyfradd dwf flynyddol gyfartalog rhwng 2% a 2.5%; yn y naw mlynedd wedi hynny, yn ystod y siociau cynhyrchiant negyddol a welwyd yn 2008 a 2009 (2010 i 2019), roedd y gyfradd dwf flynyddol gyfartalog yn llai nag un rhan o dair o'r hyn a welwyd cyn hynny, ar 0.6%. Nid yw data diweddar chwaith yn darparu rhagolwg addawol o ran sut mae cynhyrchiant y DU wedi bod ers dechrau pandemig COVID-19 ac i mewn i gyfnodau dilynol. Fodd bynnag, mae'r OBR wedi rhagweld y dylai cynhyrchiant godi i 1.25% erbyn diwedd cyfnod eu rhagolwg (2029) – sy'n dal yn is na'r gyfradd cyn yr argyfwng ariannol byd-eang.


**Ffigur 7: Allbwn y DU fesul awr a weithir: cyfradd twf o un flwyddyn i'r llall**



**Ffynhonnell:** SYG (amcangyfrif sydyn o gynhyrchiant)

Yn y tymor hir, cynyddu cynhyrchiant yw'r unig ffordd o sicrhau (ac yn bwysicach, cynnal) safonau byw uwch y pen. Mewn egwyddor, mae cynhyrchiant uwch yn gwneud cwmnïau'n fwy proffidiol a chystadleuol, a ddylai yn ei dro ddarparu'r amodau ariannol i weithwyr ofyn am gyflogau gwirioneddol uwch, ac i gwmnïau eu cynnig. Yn gyffredinol, credir bod cyflogau a chynhyrchiant yn mynd law yn llaw â'i gilydd yn y DU am y rheswm hwn yn bennaf – **Ffigur 8** mae'n dangos twf cymharol yr allbynnau fesul gweithiwr ac enillion canolrifol fesul awr yn y DU ers 1997.

**Ffigur 8: Allbwn fesul gweithiwr ac enillion canolrifol fesul awr (Mynegai: 1997 = 100)**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o adroddiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ("Annual Survey of Hours & Earnings" a "Productivity Flash Estimate")

Mae twf cynhyrchiant hefyd yn rhoi hwb i'r adnoddau posibl sydd ar gael i lywodraethau oherwydd os bydd enillion cynhyrchiant yn arwain at enillion uwch,

mae'n cynyddu maint y sylfaen drethu bresennol, gan gynyddu refeniw trethi heb fod angen cynyddu'r gyfradd drethu. Mae hyn yn rhoi opsiynau i'r llywodraeth ddefnyddio'r adnoddau y gallant wedyn eu defnyddio i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, seilwaith, a/neu doriadau treth, gan hyrwyddo twf economaidd a llesiant cymdeithasol ymhellach. Mewn dadansoddiad gan yr OBR ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethant amcangyfrif y gallai gwahaniaeth o 0.5 pwynt canran uwchben/islaw eu hamcangyfrif canolog o 1% o dwf mewn cynhyrchiant o un flwyddyn i'r llall arwain at gymaint â £40 biliwn yn llai/mwy o fenthycia erbyn diwedd cyfnod eu rhagolwg pum mlynedd.<sup>6</sup>

### **Sut mae cynhyrchiant Cymru yn cymharu â gweddill y DU?**


Er bod cyfradd twf cynhyrchiant yn bwysig, mae Cymru hefyd yn wynebu'r her bod lefel ei chynhyrchiant yn is na rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU. Dim ots pa fesur o gynhyrchiant llafur rydych yn ei ddefnyddio, mae lefel cynhyrchiant Cymru gryn dipyn yn is na chyfartaledd y DU, fel y dangosir yn **Ffigur 9**. Fodd bynnag, mae perfformiad eithriadol o uchel Llundain o ran cynhyrchiant wedi ystumio rhywfaint ar y cyfartaledd hwn. Dim ond dau o ranbarthau'r DU (Llundain a De-ddwyrain Lloegr) sydd â chynhyrchiant cyfartalog yn uwch na chyfartaledd y DU.

Mae'r adran hon yn cynnwys data sy'n ymwneud â'r dangosydd cenedlaethol canlynol: **(09) Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd, (mewn perthynas â chyfartaledd y DU)**. Mae rhagor o wybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru 2024](#).

<sup>6</sup>Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2023). [Economic and fiscal outlook: Tachwedd 2023](#)




**Ffigur 9: Mesurau cynhyrchiant sy'n berthnasol i wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr (2022)**



**Ffynhonnell:** SYG (Regional Labour Productivity)

Mae lefelau cynhyrchiant Cymru wedi bod yn gymharol isel drwy lawer o hanes diweddar Cymru. Mae **Ffigur 10** yn dangos lefelau cynhyrchiant (allbwn fesul awr) o'i gymharu â chyfartaledd y DU ar draws gwledydd y DU dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn 2022, roedd cynnyrch Cymreig fesul awr a weithiwyd yn 82.7% o gyfartaledd y DU, tua'r un lefel cymharol ag yr oedd yn 2005 (pan oedd yn 82.6%). Fodd bynnag, mae'r twf blynyddol mewn cynhyrchiant cyfartalog (GVA yr awr) yng Nghymru (0.64%) wedi tyfu ychydig yn gyflymach na thwf cynhyrchiant cyfartalog y DU (0.56%) yn y cyfnod ers yr argyfwng ariannol byd-eang, felly rhwng 2009 a 2022.

**Ffigur 10: Mynegai allbwn fesul awr, rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU (y DU = 100)**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** SYG (Regional Labour Productivity)

Un feirniadaeth gyffredin o economi'r DU yw bod y crynodiad o wasanaethau ariannol yn Llundain yn cyfrannu'n anghymesur at ffigurau cynhyrchiant cenedlaethol, gan guddio tanberfformiad cymharol y rhan fwyaf o'r rhanbarthau eraill, gan gynnwys Cymru. Fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau a dadansoddiadau wedi dod i'r casgliad bod gwasgariad cynhyrchiant y DU, sy'n cynnwys y cynhyrchiant cymharol is yng Nghymru, yn deillio fwy o ffactorau o fewn diwydiannau ac nid dim ond oherwydd bod gan ranbarthau strwythurau diwydiannol gwahanol.<sup>7</sup> Yn benodol, mae gwahaniaethau mewn cynhyrchiant rhwng rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU yn arbennig o amlwg yn y sectorau gwasanaeth, ac yn enwedig rhwng Llundain a phob ardal arall. Felly, ni ellir esbonio gwahaniaethau mewn cynhyrchiant yn unig gan fod gan Llundain a'r De-ddwyrain economi sy'n seiliedig yn bennaf ar wasanaeth, a bo gweithgynhyrchu'n fwy amlwg mewn mannau eraill. O safbwynt Cymru o leiaf, mae gweithgynhyrchu'n sector lle mae ganddi fantais gymharol o ran cynhyrchiant o'i gymharu ag ardaloedd eraill.<sup>8</sup>

Un cafeat pwysig i'r canfyddiadau hyn yw, wrth edrych ar ardaloedd mwy lleol na rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU (ITL1) – ac yn enwedig ar gyfer ardaloedd â phoblogaeth fwy gwasgaredig – gall diwydiant egluro rhai gwahaniaethau


<sup>7</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019). [Understanding spatial labour productivity in the UK](#); R Harris & J Moffat (2021). [The geographical dimension of productivity in Great Britain, 2011–18: the sources of the London productivity advantage](#); ac, A Stansbury ac eraill (2023). [Tackling the UK's regional economic inequality: Binding constraints and avenues for policy intervention](#)

<sup>8</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021). [Region by industry labour productivity](#)

cynhyrchiant. Er enghraifft, mae gan rai ardaloedd gyfran gymharol uchel o gyflogaeth mewn diwydiannau â chynhyrchiant cymharol isel, sy'n tueddu i gynnwys sectorau fel amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, a diwydiannau llety a gwasanaethau bwyd.<sup>9</sup>

Er bod angen bod yn ofalus wrth edrych ar ddata cynhyrchiant mwy lleol, mae'r data'n awgrymu bod lefelau cynhyrchiant pob is-ranbarth yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU; fodd bynnag, bu amrywiadau mewn perfformiad mewn cymhariaeth â'r DU ers 2005. Mae **Ffigur 11** yn dangos bod rhanbarthau Cymru'n perthyn i un o ddau gategori, y rheini lle mae cynhyrchiant llafur wedi cydgyfeirio â'r DU yn ystod y cyfnod hwn, a'r rheini sydd wedi disgyn ymhellach ar ei hôl hi. Y rhanbarth sydd â'r cydgyfeiriant cadarnhaol uchaf yw Sir y Fflint a Wrecsam (a symudodd 6.2 pwynt canran yn nes at gyfartaledd y DU), sy'n gartref i lawer o gwmnïau gweithgynhyrchu uwch Cymru. Y rhanbarth â'r gwahaniaeth negyddol mwyaf oedd Gwynedd (a symudodd 10.8 pwynt canran ymhellach o gyfartaledd y DU).

**Ffigur 11: Allbwn fesul awr: Newid mewn pwyntiau canran o'i gymharu â chyfartaledd y DU (2005 i 2022) a'r ffigur cymharol yn 2022 ar gyfer rhanbarthau ITL3 Cymru**



**Ffynhonnell:** Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o adroddiad Cynhyrchiant Is-ranbarthol y SYG

<sup>9</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019). [Understanding spatial labour productivity in the UK](#)

## Sut i wella perfformiad Cymru o ran cynhyrchiant

Fel gyda'r rhan fwyaf o wledydd, mae'r ffactorau y tu ôl i berfformiad hanesyddol Cymru o ran cynhyrchiant yn gymhleth ac yn ansicr i ryw raddau. Fodd bynnag, mae rhai nodweddion sy'n debygol o egluro hyn. Mae cyfran cymharol uchel o boblogaeth Cymru mewn ardaloedd prin eu poblogaeth a dyma'r unig un o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr heb ddinas â phoblogaeth o fwy na 500,000. O ran cwmnïau yn yr economi gwasanaethau lleol, fel rheol bydd gan ranbarthau mwy prin eu poblogaeth farchnadoedd llai o faint y gallant (cwmnïau) eu defnyddio i sicrhau arbedion maint. Mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach i bob cwmni ganfod manteision 'cydgrynhoi', a oedd yn cael ei ystyried yn sbardun allweddol i gynhyrchiant is-ranbarthol y DU cyn y pandemig.

Manteision cydgrynhoi – neu mewn termau symlach, dwysedd uwch o ran poblogaeth a chwmnïau mewn ardal – yw eu bod yn cynnig yr amodau i gwmnïau a gweithwyr sy'n eu galluogi i gyfnewid gwybodaeth, cronni adnoddau, a sgiliau gwell i weithwyr yn y farchnad lafur leol. Fel y gwelir yn **Ffigur 11**, y pedair ardal yng Nghymru a gydgyfeiriodd â chyfartaledd y DU ers 2005 oedd yr ardaloedd sydd agosaf at gytreffi neu ddinasoedd mwy, er bod y rheini yn Lloegr.


Mae gwella sgiliau'r gweithlu (sydd hefyd yn cael ei alw'n gyfalaf dynol) ymhlith yr elfennau pwysicaf a nodwyd er mwyn cynyddu cynhyrchiant. Yn gyffredinol, gall gweithlu medrus gyflawni tasgau presennol yn fwy effeithlon, ac maent hefyd mewn gwell sefyllfa i arloesi ac addasu i dechnolegau a phrosesau newydd. Gall hyn naill ai fod drwy eu swyddi presennol, neu mewn swyddi newydd. Mae cysylltiad hefyd rhwng newid swyddi ag effeithiau cadarnhaol ar gyflogau. Arwydd arall eu bod yn gadarnhaol o ran cynhyrchiant a'r economi.<sup>10</sup>

Ar y cyd â buddsoddi mewn cyfalaf dynol, bydd buddsoddiad cyfalaf ar draws yr economi yn hanfodol er mwyn gwella cynhyrchiant yng Nghymru. Gall buddsoddiad cyfalaf ategu a disodli llafur, gan ryddhau adnoddau y gellir eu hailddyrannu a galluogi gweithgarwch economaidd ychwanegol i ddigwydd. Mae ffurfiant cyfalaf sefydlog gros (GFCF) yn fesur sy'n cofnodi gwariant cyfalaf net gan y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys gwariant ar ymchwil a datblygu. Mae **Ffigur 12** yn dangos sut mae ffurfiant cyfalaf sefydlog gros (fel canran o'r cyfanswm cynnyrch domestig gros) wedi bod yn gyson is yn y DU na'r rhan fwyaf o wledydd y G7 ers 1997. Felly, mae'n ddealladwy bod gwella lefelau buddsoddi yn yr economi wedi dod yn flaenoriaeth gynyddol i lunwyr polisi yn y DU.

---

<sup>10</sup> Resolution Foundation (2022). [The Economy 2030 Inquiry: Changing jobs?](#)

**Ffigur 12: Ffuriant cyfalaf sefydlog gros fel canran o GDP, Ch1 1997 i Ch2 2024**



**Ffynhonnell:** SYG (Buddsoddiad busnes yn y DU)

Canfuwyd bod masnach hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar gynhyrchiant. Drwy gymryd rhan mewn perthnasoedd masnachu mwy agored, mae cwmnïau'n wynebu mwy o gystadleuaeth (sy'n cymhell enillion cynhyrchiant i fod yn fwy cystadleuol), ar yr un pryd â chaniatáu iddynt gael mynediad at farchnadoedd mwy er mwyn manteisio ar arbedion maint. Mae'r OBR yn parhau i dybio yn ei rhagolygon y bydd cynhyrchiant y DU 4% yn is nag y byddai wedi bod, ac y bydd yr effaith lawn yn cael ei theimlo ar ôl 15 mlynedd, oherwydd newidiadau i berthynas fasnachu'r DU â'r UE, a ddaeth i rym o 2021 ymlaen.<sup>11</sup> Mae rhagor o fanylion am fasnach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

<sup>11</sup> Gweler yr OBR (Mawrth 2024) [Economic and fiscal outlook – March 2024](#)

## Cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus

---

Cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus yw pa mor effeithlon ac effeithiol yw sefydliadau'r sector cyhoeddus o ran defnyddio eu hadnoddau (fel pobl, adeiladau a thechnoleg) i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol i unigolion, fel iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai a ddarperir i gymdeithas yn gyffredinol, fel amddiffyn.<sup>12</sup>

Po leiaf o adnoddau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu'r un faint o wasanaethau, y mwyaf cynhyrchiol yw'r broses honno. Mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am oddeutu un rhan o bump o economi'r DU, felly mae ei gynhyrchiant yn ffactor pwysig o ran pennu safonau byw a chynhyrchiant cyffredinol gwlad.

### Mesur cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus

Yn yr un modd â'r sector preifat, y diffiniad o gynhyrchiant y sector cyhoeddus yw'r gymhareb rhwng allbynnau a mewnbynnau. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae mesur cynhyrchiant yn un o'r heriau anoddaf ym maes ystadegau economaidd ac yn arbennig o heriol yn achos y sector cyhoeddus.

Yn y sector preifat neu'r farchnad, mae allbynnau fel arfer yn cael eu gwerthu gyda phrisiau y gellir eu harsylwi. Fodd bynnag, yn y DU, mae gwasanaethau sector cyhoeddus fel iechyd ac addysg yn cael eu darparu'n gyffredinol heb ffioedd uniongyrchol, sy'n ei gwneud yn fwy cymhleth i asesu gwerth allbwn. Yn aml, nid oes gan wasanaethau cyhoeddus un allbwn ond, yn hytrach, maent yn darparu cyfuniad o allbynnau. Mae'n arbennig o heriol i roi pris ar y gwasanaethau hyn sy'n cael eu darparu ar y cyd gan nad oes modd priodoli eu manteision i gartrefi unigol.

Hyd yn oed ar ôl nodi'r allbynnau, gall fod yn anodd cael data cyson sy'n cofnodi'r allbynnau hyn, yn enwedig o ystyried yr amrywiaeth o wahanol ddarparwyr gwasanaethau ledled y DU. Efallai y bydd oedi hefyd wrth ddarparu neu gasglu data ar gyfer rhai allbynnau. Ar ben hynny, mae asesu effeithiolrwydd neu ansawdd allbynnau'r sector cyhoeddus yn gymhleth ac efallai y bydd angen asesiadau ansoddol, sy'n oddrychol yn eu hanfod. Rhaid i ystyriaethau cynhyrchiant hefyd ystyried tegwch a mynediad addas at wasanaethau'r sector cyhoeddus, gan gwmpasu agweddau fel darpariaeth ddaearyddol, iaith, a'r dull o ddarparu gwasanaethau (ar-lein neu wyneb yn wyneb).

Er bod modd cael gafael ar gostau mewnbwn yn gyffredinol, gall fod yn her i brisio rhai agweddau'n gywir. Er enghraifft, mae cymhlethdodau ynghlwm wrth amcangyfrif costau adeiladau a pheiriannau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus,

---

<sup>12</sup> Wrth fesur cynhyrchiant y sector cyhoeddus, gwasanaethau cyhoeddus yw'r rheini y mae'r llywodraeth (llywodraeth ganolog neu lywodraeth lleol) yn eu darparu neu'n talu amdanynt, ac maent yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr anllywodraethol ac yn derbyn arian cyhoeddus e.e. darparu lleoedd meithrin gan y sector preifat, gyda'r lleoedd hyn yn cael eu hariannu gan y llywodraeth.

gan gynnwys ystyriaethau o ddibrisiant a'r cyfnod y dylid gweithredu costau buddsoddi. Mewn gwasanaethau cyhoeddus mawr fel iechyd ac addysg, mae costau llafur, fel cyflogau, yn gyfran sylweddol o gyfanswm y costau ac fel arfer mae modd eu nodi a'u mesur.

Er gwaethaf yr heriau hyn o ran mesur, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu amcangyfrifon o gyfanswm cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus y DU yn ogystal ag amcangyfrifon o gynhyrchiant gofal iechyd ac addysg.<sup>13</sup> Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau o ansawdd ond, o ganlyniad i hynny, ni fyddant yn cael eu cynhyrchu tan tua dwy flynedd yn ddiweddarach. Nid oes data ar gael ar gyfer Cymru yn unig gan ei fod yn cael ei gynnwys fel rhan o amcangyfrifon ehangach y DU ar gynhyrchiant y sector cyhoeddus gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, fel rhan o'u gwaith ehangach ar gynhyrchiant y sector cyhoeddus, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i wella'r data.<sup>14</sup> Mae'n debygol y bydd tueddiadau a chanfyddiadau cyffredinol o ran cynhyrchiant y DU hefyd yn berthnasol i Gymru.

### **Perfformiad cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus**

Iechyd ac addysg, dau faes datganoledig, oedd dau o'r meysydd sector cyhoeddus mwyaf a gafodd eu cynnwys yn nata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhai o'r meysydd datganoledig eraill oedd darpariaeth gofal cymdeithasol i blant ac oedolion (nodwyd ar wahân). Yn yr un modd â llawer o ddata economaidd, nodweddir cynhyrchiant y sector cyhoeddus gan y tueddiadau a welwyd yn y cyfnodau cyn, yn ystod ac ar ôl pandemig COVID-19.

Mae amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod cynnydd cyfartalog o 0.2% y flwyddyn yng nghyfanswm cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus y DU rhwng 1997 a 2019.<sup>15</sup> Bu cynnydd cyfartalog o 2.2% yn y mewnbynnau blynyddol rhwng 1997 a 2019. Cynyddodd yr allbynnau o swm tebyg, sef 2.3% y flwyddyn hyd at 2019. Fodd bynnag, roedd y cynnydd cymesur yn y mewnbynnau yn y cyfnod hyd at 2010 yn fwy nag ar ôl hynny, sy'n cynhyrchu'r duedd gyffredinol, fel y dangosir yn **Ffigur 13**.

Cafodd COVID-19 effaith negyddol fawr ar gynhyrchiant y sector cyhoeddus yn y DU, yn enwedig yn 2020. Bu gostyngiad o 14.5% yng nghynhyrchiant y sector yn 2020.<sup>16</sup> Bu gostyngiad o 25.1% mewn cynhyrchiant gofal iechyd blynyddol yn 2020 ar sail wedi'i addasu o ran ansawdd, ac yna bu cynnydd o 10.8% yn 2021. Bu gostyngiad o 18.9% mewn cynhyrchiant addysg, a oedd hefyd yn defnyddio mesur wedi'i addasu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn 2020, gan godi 13.1% yn 2021.


---

<sup>14</sup> I gael rhagor o wybodaeth, gweler [Adolygiad Cynhyrchiant Gwasanaethau Cyhoeddus](#) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024)

<sup>15</sup> Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Public service productivity, UK: 1997 i 2022](#)

<sup>16</sup> Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Public service productivity](#)

**Ffigur 13: Cyfanswm Cynhyrchiant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, 1997 i 2021**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** SYG

Hyd yn oed ar ôl y gostyngiad mewn gweithgarwch yn y sector cyhoeddus ar ôl COVID-19 yn 2021, amcangyfrifir bod lefel cyfanswm cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus yn dal i fod 9% yn is yn y flwyddyn honno na chyn y pandemig wrth ddefnyddio mesurau wedi'u haddasu o ran ansawdd y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yn ôl data diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae disgwyl i barhad yr effeithiau negyddol ar gynhyrchiant y sector cyhoeddus a achoswyd gan y pandemig fod y tu ôl i berfformiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf, . Mae amcangyfrifon diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gynhyrchiant y sector cyhoeddus yn dangos bod cynhyrchiant y sector cyhoeddus yn Chwarter 1 2024 yn dal i fod 6.4% yn is na'i lefel cyn pandemig COVID-19 (Chwarter 4 2019), gyda chyfraddau twf gweddol wastad ers 2021 hyd nes y cyfnod diweddaraf, sef Ch1 2024.<sup>17</sup> Nid yw'r amcangyfrifon chwarterol diweddaraf hyn ar gyfer y cyfnod ers 2021 yn cynnwys addasiadau ansawdd, gan fod angen mwy o amser i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnwys yr addasiadau hyn yn eu hamcangyfrifon. Fodd bynnag, o ystyried graddfa'r gostyngiad sy'n dal i gael ei weld yn yr amcangyfrifon hyn, mae'n ymddangos yn annhebygol y gall newidiadau mewn ansawdd roi cyfrif am hyn a bod un broblem tymor canolig gyda chynhyrchiant y sector cyhoeddus yn dal i fodoli, ac nid yw wedi dychwelyd i lefelau cyn COVID-19. Gallai hyn gael effaith ar drefn gyllido gwasanaethau cyhoeddus, gan ei fod yn awgrymu bod angen mwy o gyllid nawr i gynhyrchu'r un lefel o allbynnau sector cyhoeddus ag yn 2019.

<sup>17</sup> Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Public service productivity, quarterly, UK: January to March 2024](#)



Gyda gostyngiadau mor fawr, mae cyfle'n aml i gael twf dal i fyny, yn enwedig os yw sioc yn un dros dro. Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad mewn cynhyrchiant a welwyd yn ystod COVID-19 wedi'i adfer yn llwyr eto, gyda cholledion yn dal i'w gweld yn y data flynyddoedd yn ddiweddarach. Mae'r gostyngiad sylweddol mewn cynhyrchiant gofal iechyd, ynghyd ag addysg, yn rhan fawr o'r gostyngiad cyffredinol yng nghynhyrchiant y sector cyhoeddus yn y DU. Mae'n debygol fod y sefyllfa hon hefyd yn berthnasol i Gymru.

### **Pam fu gostyngiad yng nghynhyrchiant sector cyhoeddus y DU?**

Fel y mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu, nid yw'r gostyngiad mewn cynhyrchiant gofal iechyd, yn deillio o allbynnau is yn y sector na'r lefelau yn 2019. Ac eithrio 2020, mae gofal iechyd ar duedd gynyddol o ran allbwn. Mae'n ymwneud fwy nad oes cynnydd cyfatebol wedi bod mewn allbynnau i gyd-fynd â'r cynnydd diweddar mewn mewnbynnau iechyd, sy'n eu codi hefyd i'w lefelau uchaf erioed, . Er nad oes mesur ar gyfer Cymru sy'n gyson â mesur y DU, fel ffurf ar brocsi neu ddarlun o'r cynnydd mewn mewnbynnau, mae cyfanswm y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru ym mis Mehefin 2024 yn agos at ei lefel uchaf (sef Mawrth 2024) ers dechrau'r gyfres ddata yn 2009.<sup>18</sup> Cyflogwyd 21.0% yn fwy o staff cyfwerth ag amser llawn ym mis Mehefin 2024 nag y gwnaed ym mis Mehefin 2019.<sup>19,20</sup>

Dangosir tuedd debyg hefyd o ran mewnbynnau gofal cymdeithasol oedolion yn y DU. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau o ran addysg yn y DU, gan fod yr allbwn yn 2021 yn is na'r cyfnod cyn COVID-19, ac mae'r mewnbynnau hefyd ychydig yn is.<sup>21</sup>

Mae'n anodd canfod pam yn union mae cynhyrchiant wedi gostwng ers y pandemig. Mae'n debyg ei fod oherwydd amrywiaeth o ffactorau, a allai amrywio o un sector i'r llall. Mae'r IFS yn cyfeirio at dystiolaeth iechyd sy'n awgrymu y gallai fod oherwydd y gymysgedd o fewnbynnau, gyda staff rheng flaen yn cael blaenoriaeth o'i gymharu â gwariant ar gyfalaf a rheoli.<sup>22</sup> Mae'r IFS hefyd yn cyfeirio at waith GIG Lloegr ar gynhyrchiant, sydd, er ei fod yn defnyddio dull gwahanol o fesur cynhyrchiant, yn awgrymu ei fod yn sgil amrywiaeth o ffactorau eraill, ac yn eu plith mae costau staff dros dro a'r cyfnodau diweddar o weithredu diwydiannol.<sup>23</sup>

---

<sup>18</sup> Gweler Llywodraeth Cymru (2024) [Staff y GIG yn ôl grŵp staff a blwyddyn](#)

<sup>19</sup> Gweler Llywodraeth Cymru (2024) [Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG:30 Mehefin 2024](#)

<sup>20</sup> Roedd gan y grŵp staff mwyaf, a oedd yn cyfrif am 40% o gyfanswm y gweithlu ym mis Mehefin 2024, sef y grŵp nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd 17.3% yn fwy o staff ym mis Mehefin 2024 nag ym mis Mehefin 2019.

<sup>21</sup> Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Public service productivity: total, UK, 2021](#)

<sup>22</sup> Gweler Warner a Zaranko, (2022), (2023) yn IFS (2024) [The fiscal implications of public service productivity](#)

<sup>23</sup> IFS (2024) [The fiscal implications of public service productivity](#)

## Cyfleoedd i wella cynhyrchiant y sector cyhoeddus

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad oes atebion syml er mwyn gwella cynhyrchiant y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, prin yw'r themâu cyffredin a amlinellir yn fras isod.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylid buddsoddi rhagor mewn technoleg, yn enwedig mewn seilwaith digidol.<sup>24</sup> Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio partneriaethau cyhoeddus-preifat, fel y gall y sector cyhoeddus ennill profiad o'r sector preifat, a sicrhau ar yr un pryd y rhoddir blaenoriaeth i amcanion gwasanaethau cyhoeddus.<sup>25</sup> Argymhellir buddsoddi mewn technolegau digidol ar y sail y gallai symleiddio prosesau, lleihau gwaith papur, a gwella'r modd y darperir gwasanaethau.

I ategu technolegau newydd, yn enwedig rhai digidol, dylai'r pwyslais fod ar fwy o arloesi i helpu i feithrin y gwaith o fabwysiadu a gwreiddio dulliau mwy newydd o ddefnyddio technolegau newydd. Efallai fod angen mwy o ddysgu ac arloesi ar draws sectorau a meysydd llywodraeth.<sup>26</sup>

Mae cysylltiad pellach â thechnolegau newydd, ac mae cydnabyddiaeth hefyd bod angen i weithlu'r sector cyhoeddus chwarae rhan allweddol. Mae cyfleoedd i gynyddu niferoedd gweithlu'r sector cyhoeddus a mynd ati i wella diwylliant o arloesi parhaus ymhellach a all, yn ei dro, amsugno a defnyddio technolegau newydd.<sup>27</sup>

Yn ogystal, mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai gwelliannau pellach i arferion rheoli helpu i gynyddu cynhyrchiant. Efallai bod hyn wedi cael ei ystyried yn llai o flaenoriaeth yn fwy diweddar, gyda phwyslais yn cael ei roi ar gael mwy o staff yn agosach at y rheng flaen. Felly, mae angen cymysgedd, yn enwedig ar gyfer sefydliadau mawr, fel y GIG. Nodwyd hefyd bwysigrwydd cadw staff a chynllunio'r gweithlu fel elfen bwysig o wella cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus.<sup>28</sup> Mae staff profiadol yn tueddu i fod yn fwy cynhyrchiol; felly gall colli staff o'r fath arwain at gynhyrchiant is. Mae'n anochel eich bod yn colli rhywfaint o staff profiadol drwy ymddeoliadau, ond byddai gwella'r ffordd y caiff hyn ei reoli drwy gynllunio'r gweithle yn well yn helpu i leihau effaith hyn.

---

<sup>24</sup> Er enghraifft gwelir [OECD 2020](#), B. van Ark (2022) [Making Public Sector Productivity Practical](#), [The Productivity Institute and Capita](#) and Institute for Government (2024) [Public service productivity](#)

<sup>25</sup> OECD (2020). [Boosting Productivity in the United Kingdom's Service Sectors](#)

<sup>26</sup> OECD (2020): [Boosting Productivity in the United Kingdom's Service Sectors](#)

<sup>27</sup> B. van Ark (2022). [Making Public Sector Productivity Practical](#), The Productivity Institute a Capita

<sup>28</sup> Institute for Government (2024). [Public service productivity: What is public service productivity and how is it measured?](#)

## Safonau byw

---

Mae data incwm aelwydydd yn gallu dangos mesur o safonau byw neu lesiant materol aelwydydd. Pan fydd yn cael ei ddangos fel mesur y pen, mae'n rhoi amcangyfrif o incwm gwario cymedrig y pen aelwydydd. Dyma faint o arian ar gyfartaledd sydd gan unigolion ar gyfer gwario neu gynilo ar ôl rhoi addasiadau fel trethi, cyfraniadau cymdeithasol a budd-daliadau ar waith. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r mesur hwn gan nad yw'n ystyried oedrannau gwahanol bobl a allai fod angen lefelau incwm gwahanol. Nid yw'n cynnwys costau ehangach aelwydydd fel cost cael tŷ ac nid yw'n ystyried darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw chwaith yn rhoi cyfrif am ddisbarthiad incwm, gan ddangos y cymedr yn unig. Gellir goresgyn rhai o'r agweddau hyn gyda mesurau amgen neu ategol.


Mae cysylltiad rhwng safonau byw ac allbwn economaidd y DU (cynnyrch domestig gros y pen). Mae **Ffigur 14** yn dangos sut maent wedi symud gyda'i gilydd (ac y rhagwelir y byddant yn symud) dros y cyfnod rhwng 2008-09 a 2029-30. Y prif eithriad yw cyfnod COVID-19 pan grebachodd yr economi ond cafodd incwm aelwydydd y DU eu cynnal drwy ymyriadau a throsglwyddiadau mawr iawn gan y llywodraeth, fel y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Mae twf cynnyrch domestig gros y pen wedi bod ar gyfradd is o'i gymharu â chyfnodau blaenorol – fel y trafodwyd mewn adran flaenorol – hefyd yn golygu bod twf incwm aelwydydd y DU wedi bod yn is nag mewn cyfnodau blaenorol. Mae'r OBR hefyd yn rhagweld y bydd yn tyfu ychydig dros 0.5% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2024-25 a 2029-30.<sup>29</sup> Mae twf yn gryfach yn nwy flynedd gyntaf rhagolwg yr OBR rhwng 1% ac 1.5%, wedi'i sbarduno'n bennaf gan y disgwyliad y bydd cyflogau'n codi ychydig yn gyflymach na chwyddiant ar gyfartaledd. Fodd bynnag, fel tueddiadau cynhyrchiant, rhagwelir y bydd safon byw'r DU yn tyfu'n is o lawer na'r duedd hirdymor cyn yr argyfwng ariannol sef tua 2.5% y flwyddyn. Dros y tymor canolig, mae incwm aelwydydd a safonau byw Cymru yn debygol o efelychu tueddiadau'r DU.

O'i gymharu â rhagolwg blaenorol yr OBR (Mawrth 2024), mae incwm aelwydydd y pen dros 2% yn uwch ar ddechrau cyfnod y rhagolwg, ond mae hyn oherwydd diwygiadau data'r OBR. Fodd bynnag, erbyn diwedd y rhagolwg mae tua 1.25% yn is erbyn dechrau 2029. Mae hyn yn bennaf oherwydd polisiau Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU 2024, lle cynyddwyd trethi i gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac nid yw'r mesur hwn yn adlewyrchu'r olaf o rain.

---

<sup>29</sup> OBR (2024): [Economic and fiscal outlook: October 2024](#)

**Ffigur 14: Incwm Gwario Aelwydydd Go lawn y DU (RHDI) a GDP y pen, 2008-9 i 2029-30**




**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.  
**Ffynhonnell:** OBR

### Safonau byw yn y DU

Fel y soniwyd yn yr adran flaenorol, cynhyrchiant sy'n pennu safonau byw yn y tymor hir. O ystyried bod cynhyrchiant yn gymharol is yng Nghymru o'i gymharu â'r DU, mae safonau byw yn debygol o adlewyrchu hyn yn rhannol. Mae **Ffigur 15** yn dangos safonau byw yn ôl rhanbarthau Lloegr a'r gwledydd eraill o'i gymharu â'r DU gyfan fel y'u mesurir gan Incwm Gwario Gros Aelwydydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (GDHI) y pen. Ar gyfer y cyfnod diweddaraf sydd ar gael, 2022, Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yng Nghymru (82% o'r DU) oedd yr ail isaf ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, yn uwch na Gogledd-ddwyrain Lloegr (81%), ac yn debyg i Ogledd Iwerddon (82% hefyd). Mae GDHI y pen Cymru o'i gymharu â'r DU, sef 82%, felly'n debyg iawn i'w gynhyrchiant (gwerth ychwanegol gros yr awr) o'i gymharu â'r DU, sef 83%.

**Ffigur 15: GDHI y pen (Y DU = 100) yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, 1997 i 2022**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Yr ardal wedi'i thywyllu yw'r ystod o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr.

**Ffynhonnell:** SYG

Mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen wedi ehangu dros y tymor hwy. Mae perfformiad rhanbarthau tebyg i Gymru yn debyg. Mae'r rhan fwyaf o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr yn is na chyfartaledd y DU, a dim ond Llundain, De Ddwyrain Lloegr a Dwyrain Lloegr sy'n uwch na'r ffigur hwnnw. Perfformiad Llundain sy'n fwyaf gwahanol, gan gynyddu o'i gymharu â'r DU dros y cyfnod. O ganlyniad, mae GDHI y pen Cymru yn 90% o'i gymharu â ffigur y DU pan fyddwch yn hepgor Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Mae'r gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU (ar ôl hepgor Llundain a De-ddwyrain Lloegr) wedi aros tua'r un lefel am oddeutu'r deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos bod Cymru wedi cynnal ei lefel gymharol o ffyniant o'i chymharu â'r rhan fwyaf o ranbarthau a gwledydd y DU dros y tymor canolig.

Mae mesur Incwm Gwario Gros Aelwydydd ar lefel Cymru hefyd yn ddangosydd cenedlaethol: (10) Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen ac a gofnodwyd hefyd ym mhennod Cymru Lewyrchus [adroddiad Llesiant Cymru](#) ac fe'i defnyddir fel un o'r dangosyddion cenedlaethol (i wella GDHI y pen erbyn 2035).

### Mesuron incwm aelwydydd eraill

Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS) yn ffynhonnell arall o wybodaeth am incwm aelwydydd yng Nghymru a'r DU. Mae'r mesur yn cynnwys yr holl ffynonellau incwm gan holl aelodau'r aelwyd, gan gynnwys dibynyddion, ac mae'n cael ei addasu

('cyfwerthu') i ganiatáu ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd. Mae felly'n adlewyrchu profiad aelwyd nodweddiadol, ac fe gaiff ei ystyried yn eang fel y mesur mwyaf cynrychioliadol o safonau byw materol.

Gellir gwneud addasiad pellach hefyd gan ddefnyddio'r canolrif, yn hytrach na'r cymedr, i ddangos gwahaniaethau incwm rhwng y rheini sy'n byw yng Nghymru a'r DU o gwmpas canol y dosbarthiad incwm. Felly, ystyrir ei fod yn werth mwy cynrychioliadol ar gyfer lefelau incwm, lle gall gwerthoedd eithafol gamystumio rhai mesurau.

### **Pam fod y mesur incwm cymedrig gan yr Arolwg o Adnoddau Teulu yn wahanol i'r mesur cymedrig o Incwm Gwario Gros Aelwydydd?**

Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn rhan o gyfrifon y sector cartrefi a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Cyhoeddir fersiwn rhanbarthol o Incwm Gwario Gros Aelwydydd bob blwyddyn ac mae'n deillio o fersiwn y DU. Nid yw'n ystyried ad-daliadau cyfalaf morgais na thaliadau rhent (ac eithrio fel incwm landlordiaid preifat). Mae cydymffurfio â chysyniadau cyfrifon cenedlaethol yn golygu ei fod yn cynnwys rhent awtomatig perchen-feddianwyr fel incwm, a'i fwiad yw adlewyrchu'r budd y mae perchen-feddianwyr yn ei gael o fyw yn yr annedd y maent yn berchen arni. Mae archwiliad manwl o ddata'r cyfrifon rhanbarthol yn dangos, yn ôl pob golwg, bod y twf cymharol arafach mewn incwm tybiannol perchnogion preswyl a'r incwm rhent o osod anheddau dros y deng mlynedd diwethaf wedi sbarduno cyfran fawr o'r gostyngiad cymharol yn GDHI Cymru. Cafodd y mater hwn ei archwilio'n fanylach yn adroddiad y Prif Economegydd yn 2021.<sup>30</sup> Gan ei fod yn dod o amcangyfrifon cyfanredol, mae'n debygol o gynnwys aelwydydd nad ydynt efallai'n cael eu cofnodi mewn arolygon.

Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn seiliedig ar arolwg, wedi'i adeiladu o ficro-ddata gydag unigolion yn darparu eu hincwm ac amgylchiadau eu cartref. Gan ei fod yn seiliedig ar arolwg, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o wallau samplu'n arwain at rywffaint o ansicrwydd ynghylch gwerthoedd canolog yr adroddwyd amdanynt. Gan fod y samplau data'n gymharol fach o dan lefel y DU, mae'r data ar gyfer Cymru yn cyfateb i gyfartaledd tair blynedd (y diweddaraf ar gyfer 2020-21 i 2022-23). Mae amcangyfrifon yr Arolwg o Adnoddau Teulu yn sail i gyfres Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef ffynhonnell swyddogol y DU o amcangyfrifon tlodi. Dyma brif ffynhonnell y DU ar incwm aelwydydd ac unigolion.

Yn y cyfnod diweddaraf, 2020-21 i 2022-23, £578 oedd yr incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd (cyn costau tai) yng Nghymru.<sup>31</sup> Mae hyn yn 93% o'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU gyfan (£623) a dyma'r trydydd isaf ar gyfer holl wledydd y DU

<sup>30</sup> Gweler Llywodraeth Cymru (2021) [Cyllideb Cymru 2021: Adroddiad y Prif Economegydd](#)

<sup>31</sup> Mae'r data diweddaraf ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2020-21 a 2022-23.

a rhanbarthau Lloegr a dim ond y Gogledd Orllewin (£570) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (£553) sy'n is.<sup>32</sup> Llundain oedd â'r incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd uchaf, sef £735.


Dros yr un cyfnod ac ar ôl didynnu costau tai (gweler **Ffigur 16**), Gorllewin Canolbarth Lloegr oedd â'r incwm wythnosol canolrifol isaf o hyd, sef £483 (88% o ffigur y DU), a De-ddwyrain Lloegr oedd â'r ffigur uchaf sef £608 (111% o ffigur y DU). Mae cost uchel tai yn Llundain yn golygu bod incwm yn is nag yn Ne-ddwyrain Lloegr ar ôl ystyried y rhain. Incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd (ar ôl costau tai) yng Nghymru oedd £520, sef 95% o'r lefel ar gyfer y DU gyfan (£549). Felly, mae'r mesur costau ar ôl ystyried costau tai yn cael effaith gymharol fach ar Gymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr.

Fel y mae **Ffigur 16** yn dangos, dros y 15 mlynedd diwethaf, mae incwm canolrifol aelwydydd yng Nghymru wedi bod yn gyson is nag ar gyfer y DU gyfan a llawer o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Yr ardaloedd eraill o blith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr sydd hefyd ag incwm canolrifol aelwydydd sy'n gyson is na chyfartaledd y DU ac oddeutu'r un fath â Chymru dros yr un cyfnod, yw Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber, a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

---

<sup>32</sup> Byddai'r bwlch hwn yn cael ei leihau drwy addasu ar gyfer costau byw is yng Nghymru.

**Ffigur 16: Incwm wythnosol cyfwerth â chanolrif aelwydydd ar gyfer pob unigolyn yn ôl gwledydd y DU a rhanbarth Lloegr, ar ôl ystyried costau tai (Y DU=100%)**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Mae'r ardal sydd wedi'i thywyllu'n dangos uchafswm ac isafswm gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr.  
**Ffynhonnell:** HBAI, Yr Adran Gwaith a Phensiynau


I grynhoi, gan ddefnyddio mesur incwm aelwyd cymedrig yr Arolwg o Adnoddau Teulu cyn ystyried costau tai, mae Cymru oddeutu 16% yn is na'r DU.<sup>33</sup> Mae hyn yn agos at y gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU o ran Incwm Gwario Gros Aelwydydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, er ei fod yn cael ei amcangyfrif mewn ffyrdd gwahanol iawn ac nad yw'n cyd-fynd yn llwyr â'u diffiniad o incwm gwario. Gan ddefnyddio'r mesur cymedrig o hyd, ond ar ôl ystyried costau tai, mae oddeutu 14% o wahaniaeth rhwng Cymru a'r DU. Mae'r bwch rhwng Cymru a'r DU yn lleihau ymhellach wedyn i tua 5% pan ddefnyddir incwm canolrifol aelwydydd. Mae'n debygol fod hyn yn adlewyrchu bod cyfran llai o boblogaeth Cymru yn ennill incwm uchel iawn o'i gymharu â'r DU. Er ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y mesur hwn, gan ei fod yn defnyddio data arolwg, mae'n debyg ei fod yn fesur mwy cynrychioliadol o'r gwahaniaeth bras mewn safonau byw ac incwm aelwydydd cyffredin yng Nghymru o'i gymharu â'r DU. Nid yw'r holl fesurau hyn ychwaith yn adlewyrchu gwerth a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Gall gwerth y rhain fod

<sup>33</sup> Mae costau tai'n cynnwys taliadau rhent neu daliadau llog ar forgeisi, biliau dŵr, taliadau yswiriant strwythurol, rhent tir a thaliadau gwasanaeth.



yn wahanol yng Nghymru hefyd o'i gymharu â gweddill y DU, a allai leihau rhai o'r gwahaniaethau mewn safonau byw ymhellach.

**Ffigur 17: Bwlch canrannol yng Nghymru o'i gymharu â'r DU, yn ôl metrig incwm**



*Sylwch:* AHC = Ar ôl costau tai; BHC = Cyn costau tai.

*Ffynhonnell:* SYG a'r Adran Gwaith a Phensiynau

## Tlodi incwm cymharol

Yn ogystal â data ar incwm canolrifol aelwydydd, i archwilio ymhellach sut mae dosbarthiad incwm aelwydydd yn cymharu yng Nghymru, yn enwedig y rheini tuag at y pegwn isaf, mae'n ddefnyddiol ystyried data ar ganran y bobl sy'n byw mewn tlodi.

Daw data ar gyfer tlodi incwm cymharol o'r adroddiad Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).<sup>34</sup> Mae data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog yn diffinio bod person yn byw mewn tlodi incwm cymharol os ydynt yn byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm cyfartalog aelwydydd y Deyrnas Unedig (fel sy'n cael ei roi gan y canolrif).


Rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2023, roedd 21% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai)<sup>35</sup> - gweler **Ffigur 18**. Mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 18 mlynedd.

<sup>34</sup> Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2024). [Households Below Average Income: an analysis of the UK income distribution: FYE 1995 to FYE 2023](#)

<sup>35</sup> Mae [dadansoddiadau](#) data eraill ar gael, er enghraifft, plant/oedolion/pensiynwyr oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol, tlodi incwm cymharol yn ôl grŵp oedran, deiliadaeth tai, statws economaidd a math o gyflogaeth, nodweddion teuluol, ethnigrwydd ac anabled.

Yn Lloegr, roedd canran y bobl a oedd yn byw mewn tldi incwm cymharol (ar ôl costau tai) ychydig yn uwch nag yng Nghymru, sef 22% rhwng diwedd blwyddyn ariannol 2021 a diwedd blwyddyn ariannol 2023. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, y ffigurau oedd 21% ac 17% yn y drefn honno. O'i gymharu â rhanbarthau Lloegr, roedd y gyfradd tldi incwm gymharol (ar ôl costau tai) yng Nghymru yr un fath â Gogledd Ddwyrain Lloegr; yn is na Gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain; ac, yn uwch na Dwyrain Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr. O holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, mae Cymru yn y canol pan ddefnyddir y mesur ar ôl costau tai. Ar fesur cyn costau tai, mae safle Cymru'n llai ffafriol (dim ond tair o wledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr sydd â chyfraddau uwch o'i gymharu â phum rhanbarth/gwlad ar sail ar ôl costau tai).<sup>36</sup> Mae hyn yn adlewyrchu costau tai cymharol uchel mewn rhannau eraill o'r DU o'i gymharu â Chymru.

**Ffigur 18: Canran yr holl unigolion sy'n byw mewn tldi incwm cymharol yn ôl gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, diwedd blwyddyn ariannol 2021 i 2023**



*Ffynhonnell: HBAI, Yr Adran Gwaith a Phensiynau*

<sup>36</sup> HBAI (2024) [Tldi incwm cymharol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023](#)

## Chwyddiant

---

Mae chwyddiant, cyfradd y cynnydd mewn prisiau nwyddau a gwasanaethau dros amser,<sup>37</sup> wedi bod yn un o'r nodweddion economaidd mwyaf arwyddocaol ac amlwg dros y blynyddoedd diwethaf. Cyrhaeddodd chwyddiant prisiau defnyddwyr, y chwyddiant a brofwyd gan unigolion a chartrefi, benllanw o 11.1% ym mis Hydref 2022 – y gyfradd uchaf mewn dros 40 mlynedd. Sbardunwyd gan y cynnydd mewn prisiau ynni yn dilyn yr ymosodiad gan Rwsia ar Wcráin, aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi a achoswyd gan bandemig COVID-19 a chynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau, wrth i wledydd godi cyfyngiadau a gynlluniwyd i ddelio â'r pandemig.

Yn ystod 2024, mae chwyddiant wedi dychwelyd i gyfraddau mwy arferol, ac mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn nes at darged chwyddiant Banc Lloegr o 2% (gweler **Ffigur 19**). Mae'r gostyngiad mewn chwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf wedi digwydd yn gyflymach nag yr oedd yr OBR yn ei ddisgwyl y llynedd yn ei rhagolwg ym mis Tachwedd 2023,<sup>38</sup> sef y rhagolygon diweddaraf ar adeg Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru y llynedd (ar gyfer 2024-25).


Mae'r rhagolygon chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr diweddaraf gan yr OBR a Banc Lloegr yn awgrymu y bydd chwyddiant y DU yn aros yn uwch na'r targed blynyddol o 2% yn y tymor byr, cyn symud yn raddol tuag at y targed o 2% yn 2026. Mae rhagolwg chwyddiant yr OBR ar gyfer 2025 ymlaen yn uwch na'u rhagolygon ym mis Tachwedd 2023 ac ym mis Mawrth 2024. Mae'r OBR yn cyfeirio at nifer o ffactorau domestig a byd-eang sy'n gwneud y rhagolwg hwn yn arbennig o ansicr gyda rhywfaint o risg manteision. O ganlyniad, maent yn amcangyfrif bod siawns o tua un o bob pump y bydd chwyddiant yn uwch na 4.5% (neu lai nag 1.1%) yn 2025.

---

<sup>37</sup> Os bydd y prisiau hynny'n gostwng, datchwyddiant yw'r enw am hynny.

<sup>38</sup> I gael rhagor o wybodaeth am ragolwg perfformiad yr OBR, gweler OBR (2024) [Forecast evaluation report – October 2024](#)

**Ffigur 19: Cyfradd chwyddiant (CPI) a rhagolygon, Ch1 2024 i Ch4 2028**



*Ffynhonnell: SYG, OBR, Banc Lloegr*

Mae chwyddiant uchel am gyfnod estynedig wedi erydu safonau byw ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Mae'r OBR yn dangos bod prisiau cynyddol wedi gostwng incwm cartrefi o bron i 9% yn 2022-23, a arweiniodd at y gostyngiad mwyaf o flwyddyn i flwyddyn mewn safonau byw (2.2%) ers i gofnodion ddechrau yn y 1950au.<sup>39</sup>

Er gwaethaf gostyngiad mewn chwyddiant, mae chwyddiant gwasanaethau wedi bod yn uchel am gyfnod hir, ac ar lefel o 4.9% ym mis Medi. O ganlyniad i hyn, mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn bod yn ofalus cyn cyflwyno unrhyw ostyngiad posibl yn y gyfradd llog, gan y gallai chwyddiant yn y maes hwnnw o'r economi adlewyrchu twf cyflog a pharhad chwyddiant sylfaenol.<sup>40</sup>

Er bod y mynegai swyddogol yn dangos y codiadau cyfartalog mewn prisiau ar gyfer basged o nwyddau a gwasanaethau y gallai aelwyd nodweddiadol eu defnyddio, mae gan bobl batrymau gwario gwahanol ac, felly, mae eu profiadau o chwyddiant yn wahanol. Efallai y bydd rhywun sy'n gwario mwy yn rheolaidd ar eitemau sydd wedi codi'n gynt yn eu pris mewn unrhyw gyfnod yn teimlo bod eu cyfradd chwyddiant personol yn uwch nag y mae'r mynegai swyddogol yn ei ddangos.


Er bod y gyfradd chwyddiant wedi gostwng, mae prisiau'r rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr allweddol yn sylweddol uwch nag yr oeddent ychydig flynyddoedd yn ôl. O'i gymharu â thair blynedd yn ôl, roedd prisiau bwyd 30.9% yn

<sup>39</sup> Gweler Siart 2.16 gan yr OBR (Mawrth 2024) [Economic and fiscal outlook – March 2024](#)

<sup>40</sup> Er enghraifft, gweler araith Prif Economegydd Banc Lloegr (Hydref 2024) [A roddwyd yng nghynhadledd flynyddol Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr 'Building an Economy Fit for the Future', Llundain](#)

uwch a phrisiau ynni (trydan, nwy a thanwyddau eraill) 41.7% yn uwch ym mis Medi 2024 ar ôl bod mor uchel â 113% ym mis Ionawr 2023, dros ddwywaith y lefel ym mis Medi 2021. Er mwyn helpu i gymharu, dangosir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr cyffredinol hefyd. Mae hyn yn dangos bod cynnydd o 19.4% ym mhris basged gyffredinol o nwyddau a gwasanaethau rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2024. Pe bai prisiau wedi cynyddu yn ôl y targed chwyddiant (2% y flwyddyn), byddai'r prisiau wedi bod oddeutu 6% yn uwch ar gyfartaledd dros y tair blynedd. Felly, mae'r cynnydd mewn prisiau cyffredinol dros dair gwaith yn uwch na'r gyfradd darged neu 13.3 pwynt canran yn fwy na'r targed. Fodd bynnag, mae lefel y pris ar gyfer rhai nwyddau a gwasanaethau, fel bwyd a thanwydd, yn dal yn uwch na lefel y pris cyffredinol ac yn llawer mwy felly na phe bai wedi tyfu yn unol â'r gyfradd chwyddiant darged.

**Ffigur 20: Newid canrannol yn lefelau prisiau grwpiau o wasanaethau a nwyddau traul dethol, Medi 2021 i Fedi 2024**



**Ffynhonnell:** SYG


Er nad oes data chwyddiant ar gyfer Cymru, mae'n debygol iawn y bydd y gyfradd yn debyg iawn i gyfradd y DU. Mae dadansoddiad yn ôl gwahanol fathau o gartrefi yn awgrymu y gallai Cymru, neu o leiaf gartrefi penodol yng Nghymru, fod wedi wynebu lefelau cymharol uwch o chwyddiant. Gall Mynegeion Costau'r Cartref lywio hyn.

Yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd i chwyddiant, mae Mynegeion Costau'r Cartref y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn llawn gwybodaeth i ddangos sut mae prisiau nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan wahanol fathau o gartrefi yn y DU wedi newid dros amser, gan gynnwys newidiadau mewn cyfraddau llog morgais, nad ydynt wedi'u cynnwys mewn mesurau chwyddiant.<sup>41</sup> Mae Mynegeion Costau'r Cartref y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod chwyddiant ar gyfer teuluoedd

<sup>41</sup> Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Household Costs Indices for UK household groups](#)

incwm is wedi gostwng yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf (**Ffigur 21**). Yn wahanol i benllanw'r cyfnod o chwyddiant (yn ystod diwedd 2022 i ddechrau 2023), mae teuluoedd incwm uwch nawr yn wynebu chwyddiant uwch. Y rheswm am hyn yw, er bod cartrefi incwm uchel ac incwm isel yn awr yn wynebu biliau ynni is, sydd fel arfer yn fwy buddiol i gartrefi incwm is, mae aelwydydd incwm uwch nawr yn wynebu costau uwch ar ad-daliadau morgais oherwydd cyfraddau llog uwch.

**Ffigur 21: Cyfraddau chwyddiant blynyddol Mynegeion Costau'r Cartref, yn ôl deigradd incwm, Ionawr 2023 i Fehefin 2024, y DU**



**Sylwch:** Defnyddir deigradd dau i gynrychioli cartrefi incwm isel a deigradd naw ar gyfer cartrefi incwm uchel. Mae deigradd pump yng nghanol y dosbarthiad incwm.

**Ffynhonnell:** SYG

## Y farchnad lafur

---

Yr Arolwg o'r Llafurlu yw'r ffynhonnell swyddogol a mwyaf amserol o ddata sy'n disgrifio amodau'r farchnad lafur yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Mae amcangyfrifon Cymru bob amser wedi bod yn anwadal oherwydd maint cymharol fach y sampl. Fodd bynnag, mae wedi mynd yn llawer mwy anwadal yn ddiweddar wrth i gyfraddau ymateb ostwng cymaint fel ei fod wedi arwain at ostyngiad yng nghadernid a dibynadwyedd y data ar gyfer Cymru a'r DU. O ganlyniad, mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru'n argymhell y dylid ystyried y tueddiadau a welir mewn ffynonellau data eraill yn y farchnad lafur er mwyn deall tueddiadau ac amodau diweddar yn y farchnad lafur. Mae'r ffynonellau eraill hyn yn cynnwys yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), Gwybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill (PAYE) Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Chyfrif yr Hawlwyr sef nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra (Lwfans Ceisio Gwaith neu'r rheini sy'n cael Credyd Cynhwysol, am resymau diweithdra). Mae dod â'r data hyn ynghyd yn rhoi darlun mwy cyflawn o sut mae'r farchnad lafur yng Nghymru wedi bod yn esblygu. Yn y cyfamser, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ceisio gwella ystadegau marchnad lafur y DU drwy eu Harolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd (TLFS) sydd ar y gweill.<sup>42</sup>

### Cyflogaeth


Mae **Ffigur 22** yn dangos data cyflogaeth yr Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer a data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth dros gyfnodau tebyg. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod cyfradd gyflogaeth uwch a mwy sefydlog yng Nghymru na'r Arolwg o'r Llafurlu yn ystod 2024, gan gynnal cyfradd cyflogaeth sy'n gymharol uchel o'i chymharu â'r cyfraddau dros yr 20 mlynedd diwethaf yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn nodi bod bwloch o ryw ddau bwynt canrannol i gyfradd gyflogaeth y DU, sy'n debygol o fod yn fwloch mwy dibynadwy na'r bwloch o oddeutu pum pwynt a nodwyd yn yr Arolwg o'r Llafurlu oherwydd maint cymharol fwy sampl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac mae felly'n llai ansefydlog.

Mae'r data yn hwn yn ymwneud â'r dangosydd llesiant cenedlaethol canlynol: (21) canran y bobl mewn cyflogaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

---

<sup>42</sup> | gael rhagor o wybodaeth, gweler adran 'datblygiadau mewn data economaidd' yr adroddiad hwn.

**Ffigur 22: Canran y bobl ifanc 16 i 64 oed yng Nghymru sydd mewn cyflogaeth, rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2004 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024**




**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir. Mae data'r Arolwg o'r Llafurlu a gyflwynwyd yn gofnod o gyfnod treigl o 12 mis felly mae'n gyson â data'r Arolwg o'r Llafurlu. Mae'r ardal lwyd yn cynrychioli cyfnod yr Arolwg o'r Llafurlu pan fo wedi cael ei ail-bwysoli.

**Ffynhonnell:** SYG

Un ffordd o osgoi'r problemau presennol gyda chyfraddau ymateb isel i arolygon yw defnyddio ffynonellau data gweinyddol. Mae **Ffigur 23** yn dangos bod y duedd o ran nifer y gweithwyr cyflogedig (ac eithrio gweithwyr hunangyflogedig) o ddata Talu Wrth Ennill yng Nghymru a'r DU wedi cael ei chysoni i raddau helaeth. Mae'r cyfnodau diweddaraf hefyd yn dangos cromlin fwy gwastad, sy'n awgrymu fod y farchnad lafur yn oeri ledled y DU, wrth i nifer y gweithwyr dyfu'n arafach nag mewn cyfnodau blaenorol.



**Ffigur 23: Mynegai o weithwyr cyflogedig, 2014 i 2024**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.


Ffynhonnell: SYG

Y prif gasgliad y gellir dod iddo o ffynonellau data cyflogaeth amrywiol yw bod y farchnad lafur ledled y DU wedi colli momentwm yn ystod 2024. I ryw raddau, nid yw hyn yn syndod o ystyried y cynnydd cyflym mewn cyflogaeth yn dilyn y pandemig. Mae data Talu Wrth Ennill yn awgrymu ei bod yn fwy amlwg yn y sector preifat fod y farchnad yn colli momentwm, gyda gostyngiad gwirioneddol yn nifer y gweithwyr yn ail hanner y flwyddyn. Ar y llaw arall, parhau i gynyddu wnaeth nifer y gweithwyr yn y sector cyhoeddus.

### Diweithdra


Fel y dangosir yn **Ffigur 24**, mae tueddiad dros yr 20 mlynedd diwethaf i'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru, fel y dangosir gan yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ddilyn cyfradd y DU, er ei bod ychydig yn uwch. Mewn cyfnodau mwy diweddar, mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru wedi bod ychydig yn is na chyfradd y DU. Mae cyfran y gweithlu sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru wedi dilyn llwybr tebyg iawn i gyfradd y DU, ac mae'n debyg fod hyn unwaith eto'n adlewyrchu'r ffaith fod cyfradd diweithdra yr un fath yn y ddwy wlad yn y bôn (gweler **Ffigur 25**).

**Ffigur 24: Cyfradd diweithdra pobl 16 oed a hŷn, Rhagfyr 2004 i Fehefin 2024**



**Sylwch:** Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir.  
**Ffynhonnell:** Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, SYG

**Ffigur 25: Cyfradd yr hawlwr fel canran o'r gweithlu, mis Rhagfyr 2014 tan fis Mehefin 2024**




**Ffynhonnell:** SYG

Gan fod y sefyllfa o ran diweithdra yn debyg iawn yng Nghymru a'r DU, mae'n dilyn y bydd y gwahaniaethau mewn cyfraddau cyflogaeth yn cael eu sbarduno gan gyfraddau cymharol uwch o anweithgarwch economaidd yng Nghymru – caiff hyn ei archwilio ymhellach isod.

## Anweithgarwch Economaidd

Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw'r enw ar gyfran y bobl oedran gweithio yng Nghymru nad ydynt mewn gwaith nac yn chwilio am waith.<sup>43</sup> Yng Nghymru, gostyngodd y gyfradd anweithgarwch yn raddol drwy'r 2010au, fel y dangosir yn **Ffigur 26**. Mae hyn yn rhan o gydgyfeirio perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru gyda'r DU a ddangosir ar draws amrywiaeth o fesurau.

**Ffigur 26: Canran y bobl ifanc 16 i 64 oed yng Nghymru a'r DU sy'n economaidd anweithgar, 2004-2024**



**Sylwch:** Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir.

**Ffynhonnell:** Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (SYG)

Fodd bynnag, daeth y gostyngiad hwn yn y gyfradd anweithgarwch economaidd i ben ac mae wedi'i wrthdroi'n rhannol ers dechrau pandemig COVID-19. Gwelwyd anweithgarwch economaidd cynyddol ar draws holl wledydd y G7<sup>44</sup> ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i wrthdroi i raddau helaeth ym mhob gwlad ac eithrio'r DU. Mae hyn er gwaethaf cyfnod lle bu marchnad lafur y DU yn gymharol dynn, gyda diweithdra cymharol isel a nifer fawr o swyddi gwag.

Mae data diweddaraf Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2024, yn dangos bod tua 470,000 o bobl economaidd anweithgar rhwng 16 a 64 oed yng


<sup>43</sup> At ddibenion ystadegau economaidd, pobl economaidd anweithgar yw'r rheini nad ydynt yn gyflogedig nac yn ddi-waith; nid ydynt mewn gwaith cyflogedig, ond nid ydynt ychwaith yn chwilio am swydd nac ar gael i ddechrau gweithio.

<sup>44</sup> Canada, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Japan, y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau.

Nghymru; tua 20,000 yn uwch na chyn dechrau'r pandemig.<sup>45</sup> Nid yw cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru o 24.4% yn wahanol iawn i ardaloedd eraill, mwy tebyg yn y DU, gan gynnwys yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau gogleddol Lloegr.

Gall pobl fod yn economaidd anweithgar am sawl rheswm. Mae **Ffigur 27** yn dangos mai salwch tymor hir yw prif achos anweithgarwch economaidd yng Nghymru i raddau helaeth ers dechrau cadw cofnodion cymaradwy yn 2004. Salwch tymor hir hefyd yw prif achos anweithgarwch economaidd yn y rhannau eraill o'r DU a nodir uchod.

**Ffigur 27: Y prif reswm dros anweithgarwch economaidd ymysg pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru, 2004-2024**



**Sylwch:** Mae'r data ar gyfer y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben yn y mis a ddangosir.

**Ffynhonnell:** Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, SYG

Mae'r gostyngiad mewn anweithgarwch economaidd cyn COVID-19 a'r gyfran ohono sy'n cael ei sbarduno gan salwch tymor hir yn rhannol o ganlyniad i garfan o

<sup>45</sup> Defnyddir dwy ffynhonnell ddata i gynhyrchu amcangyfrifon o anweithgarwch economaidd ar gyfer y DU – yr Arolwg o'r Llafurlu (LFS) a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS). Cyhoeddir yr Arolwg o'r Llafurlu yn fisol ar gyfer gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ac mae'n cynnwys amcangyfrifon chwarterol. Cyhoeddir yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bob chwarter blwyddyn ar gyfer gwledydd y DU, rhanbarthau Lloegr ac ar gyfer ardaloedd o Gymru ac mae'n cynnwys amcangyfrifon blynyddol. Dyfynnir ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yma. Roedd yr amcangyfrifon hyn yn arfer cael eu hystyried yn ystadegau cenedlaethol. Bu gostyngiad ym maint samplau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, o ystyried hyn a'r ffaith nad yw'r arolwg wedi cael ei ail-bwysoli i gyd-fynd â'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf, mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) wedi cytuno y dylid atal yr achrediad hwn ac y dylid ail-ddynodi'r amcangyfrifon fel ystadegau swyddogol (OSR).

unigolion yn gadael y grŵp 16 i 64 oed. Mae'n bosibl bod hyn yn deillio o'r crynodiad uwch o ddiwydiannau trwm yng Nghymru o'i gymharu â llawer o rannau eraill o'r DU.

Ers pandemig COVID-19, gallai materion posibl eraill fel iechyd meddwl, COVID hir, a chyflyrau cronig eraill wedi arwain at wrthdroi'n rhannol y gostyngiad yn y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r DU. Mae tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod dirywiad yn iechyd cyffredinol poblogaeth y DU. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o ddisgwyliad oes yn y DU yn dangos bod gwelliannau mewn disgwyliad oes adeg geni wedi arafu dros y degawd diwethaf. Mae mesurau lles cenedlaethol eraill y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod gostyngiad yn yr asesiadau iechyd sy'n cael eu hunan-adrodd.

Gall cyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd gael nifer o effeithiau sylweddol. Mae anweithgarwch economaidd, yn enwedig ymysg unigolion oedran gweithio, yn lleihau'r gweithlu, yn llesteirio twf economaidd a chynhyrchiant, ac yn cyfrannu at allbwn economaidd is y pen o'i gymharu â gweddill y DU. Canfuwyd ei fod hefyd yn cael effaith negyddol ar lesiant, yn enwedig pan fydd unigolion yn symud o gyflogaeth i anweithgarwch oherwydd salwch, gyda'r gwrthwyneb yn gwella llesiant.<sup>46</sup> Mae'r goblygiadau ariannol yn cynnwys llai o bobl yn ennill ac yn talu trethi, gan roi pwysau ar gyllid cyhoeddus. Ar ben hynny, gall llai o gyflenwad llafur sbarduno pwysau chwyddiant wrth i fusnesau godi cyflogau i ddenu gweithwyr, gan arwain at brisiau uwch. Mae anweithgarwch economaidd yn fwy cyffredin ymysg grwpiau penodol, fel pobl ifanc, oedolion hŷn, pobl ag anabledau, ac unigolion sydd â chyrhaeddiad addysgol is, gan effeithio ar ddisbarthiad incwm, cyfoeth a chyfleoedd.

### **Rhagolygon ar gyfer y farchnad lafur**

Disgwylir y bydd rhagolwg yr OBR ar gyfer cyfradd gyflogaeth y DU ar gyfer y boblogaeth 16 oed a hŷn erbyn 2028 yn 60.0%<sup>47</sup>, i lawr o amcangyfrif diweddaraf yr Arolwg o'r Llafurlu o 60.4% a hefyd i lawr o gyfradd rhagolwg mis Mawrth o 60.2% (**Ffigur 28**). Yn debyg i sefyllfa'r DU, mae'n debygol y bydd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn is yn 2028 o'i gymharu â 2023 ac o'i gymharu â rhagolwg diwethaf yr OBR. O ystyried bod newidiadau mewn cyflogaeth yng Nghymru yn dilyn newidiadau'r DU yn agos, mae hyn yn awgrymu y bydd nifer y bobl sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yn cynyddu tua 30,000 erbyn 2028, tua 1,500 yn llai na'r hyn a awgrymir yn rhagolwg mis Mawrth.

Disgwylir y bydd rhagolwg yr OBR o'r gyfradd gyflogaeth yn lleihau oherwydd amrywiaeth o ffactorau. Mae hyn yn adlewyrchu mesurau polisi diweddaraf Llywodraeth y DU yn rhannol, lle mae cyfraniadau yswiriant gwladol uwch cyflogwyr

---


<sup>46</sup> Gweler G. Bangham (2019). [Happy now?: Lessons for economic policy makers from a focus on subjective well-being](#), Resolution Foundation

<sup>47</sup> Sylwch fod hon yn gyfradd gyflogaeth is na'r hyn a ddangosir yn Ffigur 22, gan fod yr OBR yn rhagweld o ran y rheini sy'n 16 oed a hŷn, tra bod y prif fesur a'r hyn a ddangosiwyd yn gynharach ar gyfer y rheini rhwng 16 a 64 oed.

yn lleihau rhywfaint ar gyflogaeth. Fodd bynnag, yn ei rhagolwg ym mis Mawrth, fe wnaeth yr OBR hefyd gynnwys gostyngiad yn y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y boblogaeth 60 oed a hŷn, gan adlewyrchu ffactorau demograffig ac anweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig ag iechyd (nid yw'r Swyddfa'n cyhoeddi rhagolwg ar gyfer cyflogaeth oedran gweithio). Nid oes newid sylweddol wedi bod yn safbwynt yr OBR ar y rhagolygon ar gyfer anweithgarwch.

Mae'r Swyddfa hefyd yn rhagweld cyfradd diweithdra'r DU (**Ffigur 29**). O ystyried graddau'r gydberthynas rhwng cyfraddau diweithdra'r DU a Chymru – fel y dangosir uchod, mae'n debygol iawn y bydd y ddau'n parhau i ddilyn ei gilydd dros gyfnod y rhagolwg ac y bydd Cymru'n dilyn rhagolwg yr OBR. Yn ogystal, bydd mesurau Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar ddiweithdra hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Rhagolygon diweddaraf yr OBR yw y bydd y gyfradd ddiweithdra yn gostwng o 4.3% yn 2024 i 4.0% yn 2026. Amcangyfrifir y bydd mesurau yng Nghyllideb Llywodraeth y DU 2024 yn cynyddu'r galw ac yn lleihau'r gyfradd ddiweithdra o 0.3 pwynt canran. Ar lefel y DU, mae hyn yn cyfateb i tua 90,000 o bobl, ar gyfartaledd yn 2025 a 2026 neu'n cyfateb i tua 3,000 i 4,000 o bobl yng Nghymru ar gyfartaledd yn 2025 a 2026. Rhagwelir y bydd y gyfradd ddiweithdra yna'n dychwelyd i gyfradd hirdymor o 4.1% yn 2028. Mae hon yn gyfradd ddiweithdra is ar draws y rhan fwyaf o'r pum mlynedd na'r hyn a ragwelwyd ym mis Mawrth gan yr OBR.


**Ffigur 28: Cyfradd cyflogaeth pobl 16 oed a hŷn yn y DU, 2019-2030**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** SYG, OBR

**Ffigur 29: Cyfradd Ddiweithdra ar gyfer pobl 16 oed a hŷn yn y DU, 2019-2030**



**Ffynhonnell:** SYG, OBR

## Swyddi gwyrdd


Mae'r newid i sero net yng Nghymru wedi hen ddechrau, a bu gostyngiad o tua 36% yn allyriadau Cymru ers y flwyddyn sylfaen, sef 1990. Mae'r newid hwn, ynghyd â thueddiadau economaidd ehangach, wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd 'swyddi gwyrdd' yng Nghymru.

Mae data arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy (LCREE) yn rhoi amcangyfrif o nifer y swyddi gwyrdd yng Nghymru.<sup>48</sup> Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod yr economi carbon isel ac ynni adnewyddadwy yng Nghymru y cyflogi tua 11,000 o bobl yng Nghymru yn 2022, gweler **Ffigur 30**. I roi cyd-destun, mae hyn yn cyfrif am ychydig llai na 1% o gyfanswm cyflogaeth Cymru, cyfran debyg i'r DU. Mae'r ffigur hwn wedi bod yn weddol gyson ers dechrau'r amcangyfrifon yn 2015, ac nid yw Cymru wedi gweld cynnydd ystadegol arwyddocaol mewn cyflogaeth LCREE ers dechrau cynnal yr arolwg. Dros yr un cyfnod, cynyddodd trosiant cwmnïau sy'n gweithredu yn yr economi carbon isel ac ynni adnewyddadwy yng Nghymru, sy'n awgrymu bod y twf diweddar yn yr economi carbon isel wedi bod yn gyfalaf-ddwys i raddau helaeth.

<sup>48</sup> Mwy o fanylion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) [Low carbon and renewable energy economy, UK](#)

Mae'r mwyafrif helaeth o swyddi yn yr economi carbon isel ac ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn y sector 'cynnyrch ynni effeithlon' (sy'n cynnwys gwasanaethau goleuo effeithlon a gwasanaethau monitro ac arbed ynni), ac yna'r sector 'trydan carbon isel' (sy'n cynnwys cynhyrchu ynni'r gwynt ac ynni solar).

**Ffigur 30: Cyflogaeth yn yr Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru**



**Nodiadau:** Mae'r ffigurau a gesglir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrifon seiliedig ar arolygon ac maent yn casglu gwybodaeth o sampl yn hytrach na'r boblogaeth gyfan; mae cyfyngau hyder yn cael eu cynnwys i roi cyfrif am ansicrwydd.

Mae'r categori 'Heb ei neilltuo' yn dangos nad oes modd dyrannu'r gyfran hon o gyflogaeth i un o'r chwe grŵp oherwydd nad oes digon o samplau a/neu fod data wedi'i atal at ddibenion cyfrinachedd yn 2015 a 2016.

**Ffynhonnell:** Yr Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy (SYG)

### Diffiniadau o Swyddi Gwyrdd

Un broblem gyda mesur swyddi gwyrdd yw sut mae eu diffinio. Nid oes un diffiniad unigol, ac mae hyn yn ei gwneud yn her i gymharu rhwng gwahanol ffynonellau a gwledydd.

Mae dau ddull cyffredinol o ddiffinio swyddi gwyrdd: cul ac eang. Mae dull cul, fel y'i defnyddir gyda diffiniad Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn canolbwyntio ar swyddi sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r economi werdd – er enghraifft, y rheini sy'n gweithio yn y sector gwynt ar y môr. Mae dull mwy eang hefyd yn ceisio rhoi cyfrif am swyddi gwyrdd y tu allan i'r diwydiannau hyn. Bydd rhai swyddi nad ydynt yn wyrdd ar hyn o bryd yn datblygu i fod yn wyrdd dros amser; ac er nad yw swyddi'n rai gwyrdd eu hunain, maent yn cefnogi neu'n sail



i swyddi gwyrdd (er enghraifft, swyddi a geir yn y gadwyn gyflenwi o weithgarwch sy'n gysylltiedig â gweithgarwch gwyrdd).

Gyda data'r Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy, mae unrhyw swyddi sy'n perthyn i ddiffiniad cul yr is-set o diwydiannau yn cael eu hystyried yn swyddi gwyrdd, ac nid yw'r rheini sydd y tu allan i'w cwmpas yn cael eu hystyried yn swyddi gwyrdd. Fodd bynnag, bydd swyddi yn y diwydiannau Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy nad ydynt yn wyrdd ond sy'n cael eu cyfrif tuag at y ffigur o swyddi gwyrdd; ac yn yr un modd, swyddi y tu allan i'r diwydiannau hyn sy'n wyrdd, ond heb eu cynnwys. Mae'r dull categoraiddio hwn yn golygu y gallai swyddi gwyrdd yn yr Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy fod wedi eu tanamcangyfrif neu eu goramcangyfrif, yn dibynnu ar ba un sy'n cael yr effaith fwyaf.

Mae dull mwy eang, gan gyfrif swyddi ar draws diwydiannau, yn gysyniadol anodd ac mae'n codi mwy o heriau ymarferol na dull gweithredu culach. Mae angen llawer o amser ac adnoddau i gael data o ran pa mor wyrdd yw swyddi ar draws yr economi. Mae pryder hefyd ynghylch a yw rhai swyddi'n 'wyrdd' ai peidio. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gohirio amcangyfrifon rhanbarthol ar gyfer eu hystadegau swyddi gwyrdd arbrofol ar sail galwedigaeth, gan fod profion pellach yn awgrymu y gallai unigolion – o ystyried eu dealltwriaeth o beth yw swydd werdd – fod wedi goramcangyfrif i ba raddau yr oedd eu swyddi'n wyrdd.


### **Allyriadau'r sector diwydiant a swyddi yng Nghymru**

Ffordd arall, neu ffordd ategol, o edrych ar oblygiadau posibl lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r swyddi posibl sy'n gysylltiedig ag ef yw edrych ar allyriadau a swyddi fesul sector diwydiant. Mae swyddi mewn sectorau sy'n allyrru llawer<sup>49</sup> yn cyfrif am gyfran gymharol fach yn gyffredinol o gyflogaeth yng Nghymru (tua 20%), fel y dangosir gan **Ffigur 31**. Er bod hyn yn ymddangos fel cyfran uchel, efallai y bydd llawer o weithwyr mewn sectorau gydag allyriadau uchel yn profi mân newidiadau neu na fydd unrhyw newid yn eu gwaith wrth i allyriadau ostwng, oherwydd y posibilrwydd mai dim ond mân newidiadau sydd eu hangen yn y tasgau maent yn eu cwblhau a/neu'r technolegau y maent yn eu defnyddio (gweler yr adran isod). Mae cyfran fawr o'r swyddi 'gwyrdd' presennol yn y diwydiannau hyn ar hyn o bryd, fel cyflenwi pŵer a gweithgynhyrchu. Mae'r mwyafrif helaeth (dros 80%) o lafurlu Cymru mewn swyddi y gellir eu hystyried yn swyddi 'niwtral' – swyddi nad ydynt yn 'wyrdd' (gan ddefnyddio diffiniad cul) nac yn swyddi sy'n allyrru llawer.

---

<sup>49</sup> Y diffiniad yma o sectorau sy'n allyrru llawer yw sectorau sydd ag allyriadau (ar sail preswyl) dros 1 miliwn tonnell o CO<sub>2</sub>e yn 2019.

**Ffigur 31: Allyriadau a chyflogaeth yn ôl sector yng Nghymru, 2019**



**Sylwch:** Mae'r siart hwn ond yn cynnwys yr 14 prif ddiwydiant sy'n allyrru, sy'n cyfrif am 89% o'r cyfanswm cyflogaeth.

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Cyfrifon Allyriadau Aer ac Ynni ar gyfer Cymru,<sup>50</sup> ac Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES) gan y SYG.

Mae gan economi Cymru gyfran uwch o gyfanswm allbwn a chyflogaeth yn y sectorau gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth o'i gymharu â'r DU. O ganlyniad, mae gan Gymru gyflogaeth â dwysedd carbon uwch o'i gymharu â chyfartaledd y DU, a'r ail uchaf o blith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.<sup>51</sup>

### Goblygiadau ynghylch dyfodol swyddi gwyrdd a swyddi brown

Mae amrywiaeth eang o amcangyfrifon a safbwyntiau yn y llenyddiaeth ynghylch sut bydd y newid i sero net yn effeithio ar gyflogaeth yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch y newid a'i effaith net ar swyddi.

Mae dadansoddiad gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) yn awgrymu y gallai maint llawn y newidiadau i swyddi oherwydd y newid i sero net fod yn gymharol isel dros amser, o'i gymharu â newidiadau eraill, er enghraifft o sectorau diwydiannol i sectorau gwasanaethau, neu drosiant swyddi a ddisgwyllir mewn economi sy'n seiliedig ar y farchnad.<sup>52</sup> Serch hynny, bydd angen rheoli'r newid yn dda o hyd, gan

<sup>50</sup> Oliver, D; Solis, E; Miller, N; (2024) Ymchwi i [Datgarboneiddio diwydiant a busnes](#). Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 16/2024

<sup>51</sup> PwC (cyrchwyd 2024) [Green Jobs Barometer](#)

<sup>52</sup> IMF (2022) [World Economic Outlook, April 2022: War Sets Back The Global Recovery](#)

y gallai dosbarthiad yr effeithiau cadarnhaol a'r effeithiau negyddol fod yn anwastad ar draws ardaloedd a demograffeg.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) (2023) hefyd yn awgrymu na fydd effeithiau mawr ar y rhan fwyaf o weithwyr y DU.<sup>53</sup> Mae'n amcangyfrif mai dim ond tua un gweithiwr o bob pump yn y DU fydd yn gweld yr effeithiau mwyaf yn sgil y newid. Yn y grŵp hwn, gellir categorio effeithiau swyddi yn y dyfodol yn fras i dri maes:

1. Meysydd a allai weld **twf sylweddol mewn swyddi** o ganlyniad i'r newid i sero net. Gall hyn gynnwys meysydd fel defnydd tir (yn enwedig coedwigo a mawn), adeiladu ac ôl-osod adeiladau, cyflenwi ynni (yn enwedig ynni adnewyddadwy), a'r diwydiant moduron (er enghraifft gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a chynhyrchu batris). O fewn y grŵp hwn, bydd maint y twf mewn swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar feithrin mantais gymharol a gallu Cymru i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer gweithgarwch economaidd domestig, lle bydd polisi effeithiol yn alluogwr pwysig.
2. Meysydd a allai weld **gostyngiad graddol mewn cynhyrchiant** o ganlyniad i newidiadau yn y galw oherwydd y newid i sero net. Mae tystiolaeth eang mai dim ond cyfran fach iawn o swyddi cyffredinol sy'n debygol o gael eu heffeithio (mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn amcangyfrif bod 0.3% o gyfanswm y swyddi'n perthyn i'r categori hwn ar draws y DU, er y gallai'r ffigur hwn fod yn wahanol yng Nghymru), a bydd angen mynd ati'n ofalus i reoli unrhyw sectorau lle bydd gostyngiad mewn cynhyrchu.
3. Meysydd a allai orfod **ailgyfeirio** cynhyrchiant neu brosesau i addasu i economi carbon isel. Gallai hyn gynnwys meysydd fel diwydiannau ynni-ddwys, cynnal a chadw cerbydau, rheoli gwastraff, amaethyddiaeth ac awyrennau a llongau.

---

<sup>53</sup> Ar gael yn y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2023) [A Net Zero workforce](#)

## Masnach

---

Mae allforio rhyngwladol yn farchnad bwysig i gwmnïau Cymru ac mae mewnfurion yn darparu mewnbwn i fusnesau, a nwyddau i ddefnyddwyr, gan gadw prisiau i lawr a chynyddu'r dewis i ddefnyddwyr fel rheol. Gwelwyd bod busnesau sy'n masnachu hefyd yn cyflawni lefelau cynhyrchiant uwch (fel y nodir yn yr adran ar gynhyrchiant yn gynharach yn yr adroddiad hwn).<sup>54</sup>

Yn hanesyddol, mae allforio nwyddau yn cyfrif yn gyffredinol am gyfran uwch o GDP i Gymru nag i'r rhan fwyaf o rannau eraill y DU. Yn ôl y data diweddaraf, roedd allforion nwyddau Cymru'n cyfrif am 24% o'r Cynnyrch Domestig Gros, yn uwch na chymheiriaid eraill yn y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle'r oedd allforion yn cyfrif am 19% a 16% yn y drefn honno. Mae hyn yn awgrymu y gallai Cymru fod yn fwy agored i sioc economaidd yn sgil newidiadau i berthnasau masnachu na rhannau eraill o'r DU.

Er bod y blynyddoedd diwethaf yn heriol i fasnach byd-eang, ac yn fwy heriol byth i'r DU, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), IMF a Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn rhagweld adlam sydyn mewn masnach fyd-eang yn 2024. Yn benodol, mae rhagolygon masnach fyd-eang Sefydliad Masnach y Byd yn rhagweld y bydd llif masnach nwyddau'r byd yn cynyddu 2.6% yn 2024 a 3.3% yn 2025.

Mae rhagolygon diweddaraf yr OBR (Hydref 2024) yn dangos eu bod yn dal i ddisgwyl bydd gadael yr UE yn lleihau dwysedd masnachu'r DU (allforion a mewnfurion fel cyfran o gynnyrch domestig gros) 15% yn yr hirdymor. Nododd yr Swyddfa fod masnach nwyddau'r DU ddiwedd 2023 tua 10% yn is na lefelau 2019.<sup>55</sup> Yn y cyfamser, gellir gweld stori wahanol ar gyfer gwasanaethau yn y DU, gyda'r twf cryfaf yn y G7 o ran masnach gwasanaethau - ychydig dros 12% yn uwch na lefelau 2019.


Mae **Ffigur 32** yn dangos perfformiad Cymru a'r DU o ran cyfanswm y nwyddau sy'n cael eu hallforio o'i gymharu â gwledydd eraill y G7 dros amser. Yn dilyn adferiad cymharol araf i lefelau cyn y pandemig, cyrhaeddodd allforion nwyddau Cymru benllanw yn 2022 cyn disgyn eto yn 2023. Mae'r data diweddaraf yn dangos y bu gostyngiad o -4.9% yn allforion Cymru, yr ail ostyngiad uchaf ar wahân i Ganada. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yng ngwerth allforion petrolewm a yrrwyd gan bwysau datchwyddiant ar brisiau olew.

---

<sup>54</sup> Gweler, er enghraifft, Hyb Polisi Masnach LSE (2023) [The relationship between trade and productivity](#)

<sup>55</sup> Gweler yr OBR (Mawrth 2024) [Economic and fiscal outlook – March 2024](#)

**Ffigur 32: Cyfanswm allforion nwyddau Cymru, yr UE a gwledydd y G7, 2017-2023 (2019=100)**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** Data Comtrade y Cynhedloedd Unedig ac Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau CThEF (RTS)

Mae'n debyg fod prisiau anwadal ar draws ystod eang o gynnyrch wedi effeithio ar yr adferiad cryf o'r pandemig a ddangosir yn **Ffigur 32**, gyda phwysau chwyddiant yn codi prisiau yn 2022. **Ffigur 32** Fel marchnad allforio allweddol i Gymru, effeithiwyd yn fawr ar y sector petrolewm. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf yn dangos bod yr effaith hon bellach yn dirwyn i ben gan fod prisiau olew byd-eang wedi bod yn gostwng. Dros y pedwar chwarter diwethaf, mae gwerth allforion petrolewm Cymru wedi bod yn gostwng yn gyflymach na nifer yr allforion gan gyfrannu at effaith dachwyddiant ar ffigurau masnach.

Mae Cymru'n dal i fod wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi'r DU, a chanfu data diweddaraf o Arolwg Masnach Cymru bod tua thraean o'r gwerthiannau o fusnesau Cymru wedi mynd i weddill y DU, o'i gymharu â 17% a aeth i gyrchfannau rhyngwladol. Ar y llaw arall, daeth 42% o holl bryniant busnesau wedi dod o weddill y DU, gan danlinellu pwysigrwydd masnach o fewn y DU i fusnesau Cymru.

Mae'r UE hefyd yn parhau i fod yn farchnad allweddol i Gymru, ac mae'r data diweddaraf yn dangos bod 58.6% o gyfanswm yr allforion nwyddau yn mynd i'r UE, o'i gymharu â 50.3% ar gyfer y DU. Roedd Cymru felly'n dibynnu mwy ar allforion nwyddau i'r UE na'r DU gyfan. Fodd bynnag, mae'r pwysigrwydd hwn wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf o 60.8% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2019, sy'n debyg o fod yn sgil newid yn y telerau masnachu gyda'r UE.

## Datblygiadau mewn data economaidd

---

### Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru

Mae dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu Tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru ar gyfer y flwyddyn 2019, sydd i fod i gael eu cyhoeddi cyn bo hir. Bydd y tablau hyn yn debyg i'r rhai a gyhoeddir gan [yr Alban](#) a [Gogledd Iwerddon](#).

Mae Tablau Mewnbwn-Allbwn yn dangos y perthnasoedd prynu a gwerthu dros flwyddyn rhwng pob rhan o economi. Er enghraifft, busnesau, aelwydydd, y Llywodraeth, sefydliadau nid-er-elw ac ati. Byddant yn galluogi dadansoddi effeithiau polisïau ac ymyriadau sy'n effeithio ar y galw mewn diwydiannau penodol ar economi Cymru a sut y gallent effeithio ar bethau fel cadwyni cyflenwi, cyflogaeth a gwariant aelwydydd.

Mae gennym ddi-ddordeb mewn cael adborth ar sut rydych chi'n defnyddio'r Tablau Mewnbwn-Allbwn, yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau yr hoffech eu gweld yn y dyfodol.

### Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd (TLFS)

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfeirio at ystadegau cyfredol y farchnad lafur fel 'ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu'. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau â'u gwaith i wella eu hamcangyfrifon o'r farchnad lafur, gyda disgwyl y bydd ei Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd yn darparu ffynhonnell ddata mwy cadarn. I gael rhagor o wybodaeth am y TLFS ewch i [Transformed Labour Force Survey – user guidance - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#). Disgwylir diweddariad pellach gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar yr Arolwg o'r Llafurlu a Drawsnewidiwyd ddechrau 2025.

## **Meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil a dadansoddi yn y dyfodol**

---


Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cyfleoedd i gydweithio ag ymchwilwyr ar unrhyw un o'r pynciau a godir yn yr adroddiad hwn ac ar faterion economaidd sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [Economic.Research@gov.wales](mailto:Economic.Research@gov.wales)

## Rhagolygon cyllidol

Mae'r OBR yn rhagweld y bydd gwariant y DU fel cyfran o gynnyrch domestig gros y DU yn codi o 44.9% y llynedd i 45.3% eleni (**Ffigur 33**). Mae'n gostwng rywfaint wedyn i 44.5% yn 2029-30. Mae hyn 4.9 pwynt canran yn uwch na chyn y pandemig. Mae cynnydd mewn gwariant fel canran o gynnyrch domestig gros eleni a'r flwyddyn nesaf yn cael eu sbarduno'n rhannol gan ychwanegiadau sylweddol at wariant adrannol. Wedyn, mae gostyngiadau mewn gwariant fel cyfran o gynnyrch domestig gros dros weddill cyfnod rhagolwg yr OBR, yn rhannol oherwydd bod gwariant adrannol yn tyfu'n arafach nag economi'r DU.

Mae cynnydd yng ngwariant llywodraeth y DU yng Nghyllideb 2024 yn cael ei ariannu gan gynnydd mewn benthycia a threthiant. Rhoddir crynodeb o'r rhain yn y ddwy adran nesaf.

**Ffigur 33: Gwariant cyhoeddus y DU fel cyfran o GDP y DU, 1999-2030**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** OBR

## Benthycia


Mae'r OBR yn rhagweld y bydd benthycia net sector cyhoeddus y DU yn cynnal ei lefel fel cyfran o'r Cynnyrch Domestig Gros (tua 4.5%) i'r flwyddyn nesaf (ond cynnydd mewn termau ariannol) cyn disgyn yn gyson i 2.1% o'r Cynnyrch Domestig Gros yn 2029-30, gweler **Ffigur 34**. Yn gyffredinol, mae benthycia 0.9% o gynnyrch domestig gros y flwyddyn yn uwch ar gyfartaledd na'r rhagolwg o'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth, a oedd hefyd yn debyg i'r rhagolwg ym mis Tachwedd 2023. Y



prif reswm dros y cynnydd mewn benthycia dros y tymor canolig yw oherwydd newidiadau i bolisi Cyllideb 2024 Llywodraeth y DU. Mae'r mesurau polisi'n cynyddu benthycia o tua 1% o gynnyrch domestig gros y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2025-26 a 2029-30.

Yn gyffredinol, o'i gymharu â rhagolygon blaenorol y Swyddfa Cyfrifoldeb Ystadegol ym mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024, rhagwelir y bydd y benthycia'n gostwng yn arafach dros gyfnod y rhagolwg. Caiff y gostyngiad mewn benthycia ei sbarduno'n bennaf gan y cynnydd mewn trethi fel cyfran o gynnyrch domestig gros, yn hytrach na bod gwariant yn gostwng fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros fel yn y rhagolygon blaenorol. Yn rhannol, mae Llywodraeth y DU wedi gallu cynyddu ei fenthycia i ariannu gwariant ychwanegol drwy newidiadau i'w reolau cyllidol (gweler y blwch am fanylion).

**Ffigur 34: Lefelau Benthycia Net y Sector Cyhoeddus, alldro a rhagolygon (fel canran o'r GDP)**



**Ffynhonnell:** OBR

### Rheolau cyllidol newydd Llywodraeth y DU

Cadarnhaodd y Canghellor y cynlluniau i ddiweddarau'r Siarter Cyfrifoldeb Cyllidebol i adlewyrchu targedau cyllidol newydd Llywodraeth y DU. Dyma'r rheolau newydd:

1. **'Mandad cyllidol'** sy'n mynnu bod y gyllideb bresennol mewn gwaged yn 2029-30, tan mai 2029-30 fydd trydedd flwyddyn cyfnod y rhagolwg. O hynny allan, rhaid sicrhau bod y gyllideb bresennol yn dal wedi'i mantoli neu mewn gwaged o drydedd flwyddyn y cyfnod rhagolwg treigl, a'r diffiniad o fod wedi'i mantoli yw ei bod o fewn

yr ystod: mewn gwaged, neu mewn diffyg o ddim mwy na 0.5% o'r cynnyrch domestig gros. Os defnyddir yr ystod rhwng digwyddiadau cyllidol, rhaid i'r gyllideb gyfredol ddychwelyd i warged o'r drydedd flwyddyn yn y digwyddiad cyllidol canlynol.

2. **Targed atodol** i gael dyled, a ddiffinnir fel rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus (PSNFL), sy'n gostwng fel cyfran o'r economi yn 2029-30, nes bod 2029-30 yn dod yn drydedd flwyddyn cyfnod y rhagolwg. Yna, dylai'r ddyled ostwng o drydedd flwyddyn cyfnod y rhagolwg treigl.

3. **Targed atodol** i sicrhau bod cap a lwfans a bennwyd ymlaen llaw yn 2029-30 yn cynnwys gwariant ar les (ac eithrio pensiwn y wladwriaeth a thaliadau sydd â chysylltiad agos â'r cylch economaidd).

Mae'r mandad cyllidol newydd yn golygu y bydd refeniw yn cyd-fynd â'r gwariant o ddydd i ddydd ar wasanaethau cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae gwariant o ddydd i ddydd yn fwy na refeniw ac mae'r OBR yn disgwyl i hynny barhau i fod yn wir am y ddwy flynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y bwlch wedi cael ei ddileu erbyn 2027-28. Mewn geiriau eraill, disgwylir i'r gyllideb gyfredol fod yn gytbwys ddwy flynedd cyn gofyniad y mandad. I gau'r bwlch, bydd y Canghellor yn cynyddu derbyniadau treth yr economi.

Mae'r targed dyled atodol yn gwyro oddi wrth y mandad blaenorol gan fod y mesur dyled yn wariant net wedi'u targedu oddi ar asedau ariannol, megis benthyciadau myfyrwyr. Mae'n fesur ehangach o fantolen y llywodraeth na'r un a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth ddiwethaf y DU. Mae'r targed newydd wedi galluogi'r Canghellor i ariannu cynnydd mewn gwariant buddsoddi na fyddai wedi bod yn bosibl pe bai'r mesur targed wedi aros yr un fath, ac, ar yr un pryd, bodloni'r gofyniad bod dyled, ym marn yr OBR, yn fwy tebygol na pheidio o fod yn gostwng fel cyfran o incwm ymhen pum mlynedd. Mae llawer o arbenigwyr annibynnol wedi nodi o'r blaen eu bod yn cefnogi'r trefniant newydd.

## Dyled

Mae benthycia gan Lywodraeth y DU yn golygu bod stoc dyledion yn cael ei hychwanegu mewn termau arian parod. Mae'r OBR yn rhagweld y bydd dyled net yn gostwng fel cyfran o Gynnyrch Domestig Gros o 98.4% eleni i 97.1% erbyn diwedd cyfnod y rhagolwg yn 2029-30, gweler **Ffigur 35**. Oherwydd y benthycia ychwanegol yng Nghyllideb ddiweddaraf Llywodraeth y DU, mae dyled 3% yn fwy o'r cynnyrch domestig gros yn 2028-29 na rhagamcan yr OBR ym mis Mawrth.


Rhagwelir y bydd dyled ac eithrio dyled Banc Lloegr yn cynyddu fel cyfran o'r Cynnyrch Domestig Gros ym mhob blwyddyn o'r rhagolwg, o 91.8% o'r Cynnyrch Domestig Gros eleni i 95.8% yn 2029-30. Byddai hyn wedi torri un o'r rheolau cyllidol o dan Lywodraeth flaenorol y DU.

Mae rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus (PSNFL) yn fesur ehangach o fantolen y DU gan eu bod yn cynnwys yr holl asedau ariannol (ond nid asedau

ffisegol fel ysbytai, ysgolion a seilwaith). Mae'r OBR yn rhagweld y bydd rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus yn cynyddu o 83.5% o Gynnyrch Domestig Gros eleni i 84.2% yn 2026-27, ac yna'n gostwng yn araf i 83.4% yn 2029-30, gan felly fodloni rheolau cyllidol newydd Llywodraeth y DU.


Mae lefelau dyled uwch yn golygu bod newidiadau i gyfraddau llog dyledion y DU yn cael effaith gymharol fwy ar gyllid cyhoeddus y DU. Dywedodd yr OBR fod gwariant Llywodraeth y DU ar log dyledion ar y lefel uchaf ers yr ail ryfel byd, sef 4.4% o'r Cynnyrch Domestig Gros yn 2022-23, gweler **Ffigur 36**. Rhagwelir y bydd yn gostwng i 3.5% o'r Cynnyrch Domestig Gros erbyn 2026-27, gan aros yn agos at y gyfradd honno tan 2029-30. O safbwynt arian parod, y llog ar ddyledion eleni yw £104.9 biliwn ond yna bydd yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall i £122.2 biliwn erbyn 2029-30. Mae hyn yn fwy na'r hyn sy'n cael ei wario ar addysg yn Lloegr neu tua'r un faint â chyfanswm refeniw treth gorfforaeth y DU.

**Ffigur 35: Mesurau mantolen sector cyhoeddus y DU, 1999-00 i 2029-30**



**Ffynhonnell:** OBR

**Ffigur 36: Gwariant y DU ar Log Dyledion o'i gymharu â chynnyrch domestig gros a refeiwi, 1957-2030**




**Ffynhonnell:** OBR

## Trethu

Hefyd, defnyddiodd Llywodraeth y DU'r cynnydd mewn trethiant i gynyddu gwariant yng Nghyllideb 2024. Disgwylir i'r gyfran dreth yn yr economi godi o 36.4% eleni i 38.2% yn 2029-30, i fyny o 32.7% ddeng mlynedd yn ôl, gweler **Ffigur 37**. Mae hyn hefyd 1.1% o gynnyrch domestig gros yn uwch yn 2028-29 nag yn rhagolwg mis Mawrth yr OBR. Amcangyfrifir bod y cynnydd dros gyfnod y rhagolwg yn deillio o drethi personol (a achoswyd gan gymysgedd o enillion cynyddol gyda lwfansau a throthwyon Yswiriant Gwladol a threth incwm wedi'u rhewi) drwy'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a threthi cyfalaf (a achosir gan gynydd mewn prisiau ecwiti ac eiddo, yn ogystal â pholisiau Llywodraeth y DU yng Nghyllideb 2024).

Er bod treth y DU fel cyfran o gynnyrch domestig gros yn uchel yn ôl safonau hanesyddol, mae tua'r un faint â safonau rhyngwladol yn ôl yr OBR, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r mesurau diweddar. Daw'r OBR i'r casgliad hefyd bod treth wedi bod yn codi fel cyfran o GDP ar draws economïau datblygedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Ffigur 37: Treth fel canran o gynnyrch domestig gros yn 1999-2030**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

**Ffynhonnell:** OBR


## Setliad a chyllid Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Cyllideb Hydref 2024 Llywodraeth y DU setliad grant bloc i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 am y tro cyntaf. Roedd Cyllideb y DU hefyd yn cynnwys mesurau sy'n darparu cyllid ychwanegol yn 2024-25. Mae'r setliad grant bloc cyffredinol yn 2025-26 dros £1bn yn uwch na'r disgwyl yn 2025-26, ar sail twf yng ngwariant cyhoeddus dewisol y DU a dybir yng nghyllideb y DU ym mis Mawrth 2024.

Yn ogystal â'r grant bloc, mae maint cyllideb Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar refeniw o ardrethi annomestig, y trethi datganoledig, a'r addasiadau i'r grant bloc sy'n cyd-fynd â'r trethi hynny. At ei gilydd, mae'r grant bloc yn cyfrif am 80% o'r gyllideb yn 2025-26 (ar ôl didynnu'r addasiadau i'r grant bloc). Mae'r trethi datganoledig yn ariannu 15% ac ardrethi annomestig a benthyca cyfalaf sydd i'w cyfrif am y gweddill (**Ffigur 38**).

Mae [dadansoddiad dosbarthiadol](#) ar wahân yn dangos effaith rhaglenni gwario adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2025-26 ar draws y dosbarthiad incwm yn cael ei gyhoeddi ar wahân ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

**Ffigur 38: Ariannu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**



*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


## Rhagolygon Tymor Canolig ar gyfer Cyllid Llywodraeth Cymru

Mae cynnydd o 5% mewn termau real yng nghyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, gan gynnwys yr holl elfennau a restrir uchod, o'i gymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24 ar sail debyg am debyg. Ar sail rhagolygon treth yr OBR a'r llwybr ar gyfer gwariant cyffredinol ar adnoddau dewisol a gyhoeddwyd yng nghyllideb mis Hydref y DU, bydd yn cynyddu mewn blynyddoedd i ddod ar gyfradd o ychydig o dan 1% y flwyddyn mewn termau real. Mae'r llwybr a ragwelir ar gyfer y gyllideb adnoddau ar gyfer blynyddoedd ar ôl 2025-26 yn debyg i'r hyn a ddisgwyliwyd yn flaenorol, er ei fod, fel y nodwyd uchod, yn dechrau o sylfaen uwch. (**Ffigur 39**).

Mae'r gyllideb gyfalaf gyffredinol 7% yn uwch mewn termau real yn 2025-26 o'i gymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24. Mae'r llwybr ar gyfer gwariant cyfalaf cyffredinol y DU ar gyfer y dyfodol a gyhoeddwyd yng nghyllideb y DU yn awgrymu na fydd unrhyw gynnydd mawr pellach ar ôl 2025-26. Mae'r gyllideb ddisgwyliedig a ddangosir yn **Ffigur 40** yn tybio bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio ei therfyn benthyca cyfalaf blynyddol llawn o £150m. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu y byddai'r terfyn cyffredinol o £1bn yn cael ei gyrraedd yn 2028-29, gan egluro rhywfaint o'r gostyngiad a ragwelir yn y gyllideb yn 2029-30. Yn gyffredinol, mae'r cynnydd mawr yn 2025-26 yn cadw amcanestyniad y gyllideb yn uwch o lawer na hynny, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau cyfalaf cyffredinol yn y DU a gyhoeddwyd yng nghyllideb Llywodraeth flaenorol y DU ym mis Mawrth 2024.

Mae'r bylchau mewn termau real rhwng yr amcanestyniadau diweddaraf a'r rheini a wnaed ym mis Mawrth 2024 a ddangosir yn **Ffigur 39** a **Ffigur 40** yn is na'r bylchau arian parod oherwydd bod y rhagolwg ar gyfer y dachwyddydd cynnyrch domestig gros yn 2024-25 a 2025-26 wedi cael ei ddiwygio ers mis Mawrth. Mae rhagolwg mis Hydref ar gyfer y dachwyddiant yn dangos twf o 4.8% dros y ddwy flynedd rhwng 2023-24 a 2025-26, o'i gymharu â 2.2% dros y cyfnod hwnnw yn rhagolwg mis Mawrth.


**Ffigur 39: Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real**



**Sylwch:** Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero. Mawrth 2024 wedi'i addasu ar gyfer Prif Amcangyfrifon 2024-25, heb gynnwys cyllid COVID yn 2020-21 a 2021-22

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru

**Ffigur 40: Cyllideb Cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn termau real**



**Sylwch:** Mis Mawrth 2024 wedi'i addasu ar gyfer Prif Amcangyfrifon 2024-25

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru




## Trethi datganoledig

Mae ffigurau rhagamcanol y gyllideb adnoddau uchod yn cynnwys yr effaith net a ragwelir ar refeniw trethi datganoledig. Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y rhagolygon hynny.

Roedd Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr OBR ar gyfer mis Hydref yn cynnwys rhagolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig ac ar gyfer trethi cyfatebol y DU sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Mae Rhagolygon yr OBR ar gyfer Trethi Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhagolwg refeniw wedi'i ddiweddarau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a rhagor o fanylion am y rhagolygon eraill.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos twf cryf mewn refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru (**Ffigur 41**). Dros y blynyddoedd alldro rhwng 2019-20 a 2022-23, cynyddodd refeniw CTIC 9% y flwyddyn ar gyfartaledd, a rhagwelir y bydd yn parhau i dyfu ar gyfradd debyg dros y blynyddoedd nesaf. Disgwylir i refeniw treth trafodiadau tir adfer yn 2024-25 o lefel gymharol isel yn 2023-24 a thyfu'n gryf drwy weddill y cyfnod a ragwelir.

**Ffigur 41: Refeniw trethi datganoledig (£ miliwn)**




**Ffynhonnell:** CThEM, OBR

Mae rhagolwg yr OBR ar gyfer trethi cyfatebol y DU hefyd yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy'r addasiadau i'r grant bloc.

Dangosir y sefyllfa net rhwng y trethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc yn **Ffigur 42**. Mae'r sefyllfa net yn cynnwys effaith symiau cysoni mewn perthynas â gwallau yn y rhagolygon mewn blynyddoedd blaenorol. Mae rhagor o fanylion am y symiau hyn yn Atodiad D i brif [naratif y Gyllideb Ddrafft](#). Yn gyffredinol, disgwylir i'r trethi datganoledig barhau i wneud cyfraniad cadarnhaol at gyllideb Llywodraeth Cymru, gyda sefyllfa net flynyddol o tua +£300m neu fwy o'r flwyddyn gyfredol hyd at ddiwedd cyfnod y rhagolwg.

Mae'r sefyllfa net yn codi'n sydyn yn 2024-25 o'i gymharu â blynyddoedd cynharach. Mae hyn yn cael ei sbarduno gan welliannau net disgwyliedig ar draws y tair treth a thrwy gynnwys symiau cysoni cadarnhaol mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Rhagwelir y bydd y sefyllfa net yn lleihau rhwng 2024-25 a 2025-26, o tua £340m i ychydig mwy na £300m. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei egluro gan symiau cysoni llai (ond cadarnhaol o hyd) yn 2025-26. Mae'r sefyllfa net yn cynyddu eto yn 2026-27.

**Ffigur 42: Y sefyllfa net rhwng rhagolygon trethi datganoledig a'r grant bloc (£ miliwn)**



**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru

Mae addasiad grant bloc CTIC a rhagolwg refeniw CTIC ar gyfer 2025-26 nawr yn sefydlog at ddibenion cyllidebol. Bydd alldro'n cael ei gyhoeddi yn ystod Haf 2027 a bydd unrhyw symiau cysoni yn sgil hynny'n cael eu rhoi ar waith yn 2028-29. Caiff addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn 2025-26 eu diwygio yn dilyn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr OBR yn hydref 2025.

Mae [canllaw cyflym](#) sy'n dangos effaith newid cyfraddau treth incwm Cymru ar refeniw yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Gwellwyd yr amcangyfrifon mudo sy'n gysylltiedig â threthi sydd wedi'u cynnwys yn y canllaw cyflym drwy gynnwys amcangyfrifon o [set ddata](#) hydredol newydd CThEM ar gyfer incwm a lleoliad trethdalwyr y DU dros gyfnod o 12 mlynedd.

### **Cynaliadwyedd cyllidol hirdymor**


Mae adroddiad [Risgiau a Chynaliadwyedd Ariannol](#) yr ORBI (Medi 2024) yn nodi bod economi'r DU wedi wynebu siociau sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf, gan gynnwys argyfwng ariannol byd-eang, pandemig, ac argyfwng ynni. Mae'r digwyddiadau hyn wedi rhoi straen ar gyllid cyhoeddus, gyda diffygion cyfartalog o bron i 5% o'r GDP ers dechrau'r 2000au. O ganlyniad, bu cynnydd sylweddol mewn dyled y sector cyhoeddus – i 98.1% o'r Cynnyrch Domestig Gros erbyn mis Mawrth 2024. Cyrhaeddodd gwariant cyhoeddus bron i 45% o'r Cynnyrch Domestig Gros yn 2023-24, y lefel barhaus uchaf ers canol y 1970au, wedi'i sbarduno gan wariant cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus, lles a chostau llog.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r DU yn wynebu pwysau hirdymor fel poblogaeth sy'n heneiddio, newid yn yr hinsawdd, a thensiynau geowleidyddol cynyddol, ac mae disgwyl iddynt roi mwy o straen ar gyllid cyhoeddus. Mae amcanestyniadau'n dangos y gallai gwariant cyhoeddus godi i dros 60% o'r Cynnyrch Domestig Gros yn ystod y 50 mlynedd nesaf, tra bod refeniw'n parhau i fod yn tua 40% o'r Cynnyrch Domestig Gros, gan arwain yn y pen draw at gynnydd cyflym yn y gymhareb dyled-i-GDP. Gellid lliniaru'r pwysau hyn a'r cynnydd yn y ddyled gyhoeddus drwy welliannau mewn amodau economaidd, neu fel arall bydd angen cymryd camau polisi i gynyddu trethi neu leihau gwariant.

Mae grant bloc Llywodraeth Cymru'n cael ei arwain gan newidiadau yng nghyllid Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. O ystyried pwysigrwydd y grant bloc i gyllid cyffredinol Llywodraeth Cymru, mae amcanestyniadau gwariant yr OBR yn berthnasol iawn i gynaliadwyedd cyllidol tymor hirach Llywodraeth Cymru.


Mae newid demograffig yn effeithio ar dri o brif feysydd gwariant Llywodraeth Cymru: iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i oedolion. Dangosir gwariant y DU ar y swyddogaethau hyn yn ôl grŵp oedran yn **Ffigur 43** a dangosir rhagamcanion poblogaeth ar gyfer Cymru yn **Ffigur 44**. Gyda phoblogaeth Cymru a'r DU yn heneiddio fwyfwy, rhagwelir y bydd gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu fel cyfran o'r Cynnyrch Domestig Gros. Ar y llaw arall, rhagwelir y bydd gwariant ar addysg fel cyfran o'r Cynnyrch Domestig Gros yn gostwng ychydig, oherwydd cyfraddau geni isel a'r boblogaeth fudol sy'n fwy tebygol o fod o oedran gweithio. Mae pwysau eraill ar wariant nad ydynt yn rai demograffig sy'n cynyddu ymhellach y gwariant a ragwelir yn y maes hwnnw.

**Ffigur 43: Gwariant agregedig y DU yn ôl oedran ar addysg, iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn 2028-29 (£ 000s)**



*Ffynhonnell: OBR*

**Ffigur 44: Amcanestyniadau poblogaeth Cymru, 2022-2060 (2022=100)**



*Ffynhonnell: SYG*

Mae **Tabl 1** isod yn dangos y newid yng ngwariant cyhoeddus y DU fel cyfran o'r Cynnyrch Domestig Gros ar gyfer y prif wasanaethau cyhoeddus hyn dros gyfnod amcanestyniadau'r OBR.

**Tabl 1: Newid â ragamcanir mewn gwariant cyhoeddus yn y DU fel cyfran o'r Cynnyrch Domestig Gros**

	2028-29 i 2033-34	2033-34 i 2043-44	2043-44 i 2053-54	2053-54 i 2063-64	2063-64 i 2073-74
Iechyd	+1.3	+1.1	+1.3	+1.5	+1.8
Gofal cymdeithasol i oedolion	+0.1	+0.2	+0.2	+0.2	+0.2
Addysg	-0.2	-0.1	0.0	-0.1	-0.1
Gwasanaethau cyfredol arall	-0.1	-0.1	0.0	0.0	0.0

*Ffynhonnell: OBR*

### Rhagolwg Cyllidol Cymru

Mae'r amcanestyniadau tymor hirach yn **Ffigur 45** yn defnyddio'r rhagolwg tymor canolig a ddangosir yn **Ffigur 39** fel man cychwyn. Yna, ystyrir tri senario ar gyfer y cyfnod o 2027-28 i 2032-33.

Senario un: Amcanestyniadau gwariant yr OBR

- Yn seiliedig ar amcanestyniadau sylfaenol yr OBR a ddisgrifir uchod. Mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i gyllid grant bloc yn tyfu'n gyflymach na'r cyllid grant yn ystod cyfnod yr amcanestyniad. Fel y dangosir uchod, heb fewnfudo, mae'r senario hwn yn arwain yn y pen draw at gynnydd cyflym yn nyled net y sector cyhoeddus.

Senario dau: Mae gwariant yn cynyddu law yn llaw â chynnyrch domestig gros

- Mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i arian grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn tyfu ar yr un gyfradd ag economi'r DU. Mae'r senario hwn yn adlewyrchu sefyllfa lle mae Llywodraeth y DU yn fodlon cynnal y sefyllfa gyllidol yn fras ar ddiwedd y cyfnod rhagolwg tymor canolig presennol.


Senario tri: Twf un pwynt canran yn llai na chynnyrch domestig gors

- Gwariant perthnasol Llywodraeth y DU yn cynyddu un pwynt canran yn arafach nag economi'r DU. Mae hyn yn adlewyrchu senario lle mae galw am leihau dyled yn gyflymach neu mae elfennau eraill o wariant y DU – fel pensiynau neu log ar ddyledion – yn cynyddu'n gyflymach.

Bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru'n tyfu ar gyfradd debyg i'r hyn a welwyd yn ystod y 2000au yn ôl senario gwariant yr OBR. Y senario hwn sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i ateb y galw am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol ond, ac ystyried casgliad yr OBR y bydd hyn yn arwain at dwf esbonyddol yn nyled net y sector cyhoeddus heb godi trethi, efallai nad hwn fydd y mwyaf tebygol.

Mae'r senario canol yn awgrymu y bydd y gyllideb adnoddau yn tyfu ychydig yn gyflymach dros y pum mlynedd nesaf, ac yn y senario isaf mae parhad o'r twf hwnnw dros y tymor hirach.

**Ffigur 45: Amcanestyniadau hirdymor ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd (cyllideb adnoddau heb gynnwys COVID-19) mewn termau real, o dan dri senario (£m, prisiau 2023-24)**




**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru

O ystyried bod y grant bloc yn dominyddu cyllideb Llywodraeth Cymru, bydd cynaliadwyedd y gyllideb i ddiwallu anghenion gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. Os caiff y gwasanaethau cyfatebol yn Lloegr eu hariannu'n ddigonol, yna bydd digonolrwydd cyllid yng Nghymru yn y dyfodol yn dibynnu ar a yw'r galw am y gwasanaethau hynny'n tyfu ar gyfradd wahanol i'r galw yn Lloegr. Bydd perfformiad cymharol y trethi datganoledig yn cael effaith lai, ond bydd yn effaith bwysig o hyd.

Fel y dangosir yn **Ffigur 44**, mae disgwyl i'r boblogaeth gynyddol o bobl hŷn fod yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r galw cynyddol am wariant ar wasanaethau cyhoeddus ar draws y DU. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn na Lloegr – sy'n rhan o'r rheswm dros yr angen cymharol uwch iddi wario ar wasanaethau cyhoeddus – ond y twf yn y boblogaeth honno fydd yn sbarduno newidiadau yn y galw. Mae **Ffigur 46** yn dangos y rhagolwg o'r twf yn y boblogaeth sydd â disgwyliad oes o 10 mlynedd neu lai yn weddill – grŵp sy'n debygol o greu rhywfaint o'r galw mwyaf am

wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae disgwyl i'r boblogaeth hon dyfu'n gyflym ond ar tua'r un gyfradd yng Nghymru ac yn Lloegr tan ddiwedd y 2020au, a bydd twf ychydig yn gyflymach yn Lloegr wedi hynny. Ar sail y rhagamcanion hyn, ni ddylai'r ysgogiad demograffig ar gyfer cynyddu gwariant ar wasanaethau cyhoeddus i bobl hŷn yng Nghymru fod yn fwy nag yn Lloegr.

**Ffigur 46: Rhagolwg o'r boblogaeth â disgwyliad oes o 10 mlynedd neu lai yn weddill**



**Ffynhonnell:** SYG

Mae Llywodraeth Cymru'n wynebu heriau cyllidol difrifol, gyda mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus a lefelau uwch o anghenion o'i gymharu â Lloegr. Fodd bynnag, nid oes dim yn yr amcanestyniadau poblogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i awgrymu y bydd y twf yn y galw am wasanaethau yn wahanol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.